

## Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd Graeme Francis – Clerc y Pwyllgor  
Dyddiad: Dydd Mawrth, 3 Hydref 2017 Kath Thomas – Dipwrwy Glerc  
Amser: 09.15 0300 200 6565  
[SeneddDeisebau@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru)

---

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant (Tudalennau 1 – 34)

### 2 Deisebau newydd

2.1 P-05-771 Ailystyried y penderfyniad i roi'r gorau i Grant Byw'n Annibynnol  
Cymru a'r angen i gefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol  
(Tudalennau 35 – 48)

2.2 P-05-773 Peidiwch â Llenwi Safleoedd Tirlenwi!  
(Tudalennau 49 – 58)

2.3 P-05-774 Ewch Heibio'n Llydan ac yn Araf (Cymru)  
(Tudalennau 59 – 71)

2.4 P-05-776 Cydnabod tri chan mlwyddiant Williams Pantycelyn  
(Tudalennau 72 – 88)

2.5 P-05-778 Amddiffyn Cyllyll Môr ar Draeth Llanfairfechan  
(Tudalennau 89 – 105)

### 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### Addysg

The following two items will be grouped together for consideration



- 3.1 P-05-757 Cael gwared ar y rhwymedigaeth ar ysgolion i gynnal gweithredoedd addoli crefyddol  
(Tudalen 106)
- 3.2 P-05-765 Cadw canllawiau presennol ar gyfer Gwasanaethau Crefyddol  
(Tudalennau 107 – 113)

## **Iechyd**

- 3.3 P-04-408 Gwasanaeth i Atal Anhwylder Bwyta ymysg Plant a Phobl Ifanc  
(Tudalennau 114 – 118)
- 3.4 P-04-505 Uned Anhwylderau Bwyta yng Nghymru  
(Tudalennau 119 – 122)

## **Amgylchedd a Materion Gwledig**

- 3.5 P-04-648 Diwygio'r Cyfarwyddyd ar Olew a Nwy Anghonfensiynol  
(Tudalennau 123 – 124)
- 3.6 P-04-683 Coed mewn Trefi  
(Tudalennau 125 – 127)
- 3.7 P-05-743 Rhowch Derfyn ar Fasnachu Anifeiliaid Anwes Egsotig yng Nghymru  
(Tudalennau 128 – 131)
- 3.8 P-05-753 Cryfhau'r Fframwaith Deddfwriaethol a Rheoleiddiol Ynghylch Cyfleusterau Prosesu Pren Gwastraff  
(Tudalennau 132 – 134)
- 3.9 P-05-756 Diogelu cerddoriaeth fyw yng Nghymru  
(Tudalen 135)
- 3.10 P-05-759 Ailagor Ffordd Goedwig Cwmcarn adeg y Pasg 2018  
(Tudalennau 136 – 141)

## **Economi a'r Seilwaith**

- 3.11 P-05-690 Arwynebu Ffordd A40 Rhaglan-Y Fenni  
(Tudalennau 142 – 145)

## **Gyllid a Llywodraeth Leol**

3.12 P-05-726 Rhoi Rhyddhad Ardrethi i Awdurdodau Lleol ar gyfer Cyfleusterau Hamdden a Diwylliannol

(Tudalen 146)

## **Gymunedau a Phlant**

3.13 P-05-734 Gwahardd Codi Ffioedd Asiant Gosod ar Denantiaid

(Tudalennau 147 – 148)

**Item 4 – Sessiwn dystiolaeth am P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf ac P-04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig**

Dr John Cox, Ddeisebwr am P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf

Terry Evans, Ddeisebwr am P-04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig

Chris Austin, Cynrychiolwr am United Valleys Action Group

4.1 P-04-472 Gwnewch y Nodyn Cyngor Technegol Mwynau yn ddeddf

(Tudalen 149)

4.2 P-04-575 Galw i Mewn Pob Cais Cynllunio ar Gyfer Cloddio Glo Brig

(Tudalennau 150 – 160)

**5 Motion under Standing Order 17.42(ix) to resolve to exclude the public from the meeting for the remainder of the meeting**  
(10.30)

**6 Trafod y dystiolaeth o'r Sesiwn Flaenorol**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

### **P-05-771 Ailystyried y penderfyniad i roi'r gorau i Grant Byw'n Annibynnol Cymru a'r angen i gefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Nathan Lee Davies, ar ôl casglu 324 o lofnodion ar-lein a 307 ar bapur – cyfanswm o 631 lofnodion.

#### **Geiriad y ddeiseb:**

Fel rhywun sy'n cael Grant Byw'n Annibynnol Cymru ac yn ymgyrchu dros bobl anabl, rwy'n bwriadu gofyn i Lywodraeth Cymru ailystyried ei phenderfyniad i roi'r gorau i Grant Byw'n Annibynnol Cymru o fis Ebrill 2019 ymlaen.

Cyflwynwyd Grant Byw'n Annibynnol Cymru i helpu pobl a oedd yn arfer hawlio arian gan Gronfa Byw'n Annibynnol Llywodraeth y DU, a gaewyd yn 2015. Mae'r cynllun yn helpu mwy na 1,500 o bobl ledled Cymru. Mae gan bawb sy'n cael y Grant lefel uchel o anghenion gofal a chymorth.

Y bwriad oedd rhoi'r gorau i'r cynllun ym mis Mawrth 2017, ond ym mis Tachwedd, dywedodd Rebecca Evans, y Gweinidog gwasanaethau cymdeithasol, y byddai'r cyllid yn parhau am flwyddyn arall.

Yna, bydd y gronfa £27 miliwn yn cael ei throsglwyddo'n uniongyrchol i awdurdodau lleol yn ystod 2018-19 fel y gallant ddiwallu anghenion cymorth y rhai a oedd yn arfer cael arian drwy'r Gronfa Byw'n Annibynnol erbyn 31 Mawrth 2019.

#### **Gwybodaeth ychwanegol:**

Pam yr ydym yn gwrthwynebu'r penderfyniad:

Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y penderfyniad wedi'i wneud ar sail cyngor gan randdeiliaid. Cynrychiolwyr o'r trydydd sector neu ddinasyddion oedd y mwyafrif ar y grŵp rhanddeiliaid. Ond nid oeddynt eisiau cael gwared ar Grant Byw'n Annibynnol Cymru, a'r pwynt allweddol yw na chafodd ein cyngor ei dderbyn.

Dylid cofio hefyd nad oes yn rhaid rhoi'r gorau i Grant Byw'n Annibynnol Cymru, ac mae llwyddiant Cronfa Byw'n Annibynnol yr Alban yn brawf o hynny; sydd hefyd yn ddadl o blaid cefnogi Cronfa Byw'n Annibynnol Gogledd Iwerddon.

At hyn ny, roedd maniffesto poblogaidd y blaid Lafur yn nodi cynlluniau i sefydlu system ofal gene dlaethol a fyddai'n annibynnol ar awdurdodai lleol.

Dyma'r union amser y dylai'r Blaid Lafur uno yn erbyn y Torïaid ar faterion o'r fath. Rhaid i ni gwestiynu pam nad yw Plaid Lafur Cymru yn chwarae ei rhan wrth newid y tirlun gwleidyddol?

Yn wir, yn y pen draw, dylem fod yn anelu at sefydlu Cronfa Byw'n Annibynnol i Gymru fel nad oes yn rhaid i unrhyw berson anabl ddioddef yr ansicrwydd a'r unigedd a wynebir gan y rheini sy'n cael Grant Byw'n Annibynnol Cymru ar hyn o bryd. Ni allwn ddechrau credu bod gwir gyfiawnder cymdeithasol a chydaddoldeb i bawb yn bosibl oni fydd Llafur Cymru yn ailystyried ei benderfyniad ynghylch Grant Byw'n Annibynnol Cymru.

Mae'n siŵr y bydd Llafur Cymru yn dadlau y dylem roi cyfle i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) lwyddo. Fodd bynnag, mae angen buddsoddiad ac adnoddau sylweddol ar y Ddeddf ddelfrydyddol hon i sicrhau ei bod yn llwyddo – ac nid oes dim golwg o'r gwelliannau sydd eu hangen ar ein seilwaith er mwyn sicrhau bod y Ddeddf yn llwyddo. Efallai'n wir ei bod yn bryd cael chwyldro yn y ffordd y darperir gofal cymdeithasol, ond gallai'r fath drawsnewid gymryd degawd neu ragor, ac nid yw'r rhai sy'n derbyn Grant Byw'n Annibynnol Cymru yn haeddu cael eu trin fel arbrawf pan fo'u hanghenion o ran gofal a chymorth yn gofyn am sefydlogrwydd a strwythur hirdymor.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Wreccsam
- Gogledd Cymru

## Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Rhif yr e-ddeiseb: [P-05-771](#)

Teitl y ddeiseb: **Ailystyried y penderfyniad i gau Grant Byw'n Annibynnol Cymru a chefnogi pobl anabl i fyw'n annibynnol**

Testun y ddeiseb:

Pam yr ydym yn gwrthwynebu'r penderfyniad:

Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y penderfyniad wedi'i wneud ar sail cyngor gan randdeiliaid. Cynrychiolwyr o'r trydydd sector neu ddinasyddion oedd y mwyafrif ar y grŵp rhanddeiliaid. Ond nid oeddynt eisiau cael gwared ar Grant Byw'n Annibynnol Cymru, a'r pwynt allweddol yw na chafodd ein cyngor ei dderbyn.

Dylid cofio hefyd nad oes yn rhaid rhoi'r gorau i Grant Byw'n Annibynnol Cymru, ac mae llwyddiant Cronfa Byw'n Annibynnol yr Alban yn brawf o hynny; sydd hefyd yn ddadl o blaid cefnogi Cronfa Byw'n Annibynnol Gogledd Iwerddon.

At hynny, roedd maniffesto poblogaidd y blaid Lafur yn nodi cynlluniau i sefydlu system ofal genedlaethol a fyddai'n annibynnol ar awdurdodai lleol.

Dyma'r union amser y dylai'r Blaid Lafur uno yn erbyn y Toriaid ar faterion o'r fath. Rhaid i ni gwestiynu pam nad yw Plaid Lafur Cymru yn chwarae ei rhan wrth newid y tirlun gwleidyddol?

Yn wir, yn y pen draw, dylem fod yn anelu at sefydlu Cronfa Byw'n Annibynnol i Gymru fel nad oes yn rhaid i unrhyw berson anabl ddioddef yr ansicrwydd a'r unigedd a wynebir gan y rheini sy'n cael Grant Byw'n Annibynnol Cymru ar hyn o bryd. Ni allwn ddechrau credu bod gwir gyfiawnder cymdeithasol a chydarddoldeb i bawb yn bosibl oni fydd Llafur Cymru yn ailystyried ei benderfyniad ynghylch Grant Byw'n Annibynnol Cymru.

Mae'n siŵr y bydd Llafur Cymru yn dadlau y dylem roi cyfle i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) lwyddo. Fodd bynnag, mae angen buddsoddiad ac adnoddau sylweddol ar y Ddeddf ddelfrydyddol hon i sicrhau ei bod yn llwyddo - ac nid oes dim golwg o'r gwelliannau sydd eu hangen ar ein seilwaith er mwyn sicrhau bod y Ddeddf yn llwyddo. Efallai'n wir ei bod yn bryd cael chwyldro yn y ffordd y darperir gofal cymdeithasol, ond gallai'r fath drawsnewid gymryd degawd neu ragor, ac nid yw'r rhai sy'n derbyn Grant Byw'n Annibynnol Cymru yn haeddu cael eu trin fel arbrawf pan fo'u

hanghenion o ran gofal a chymorth yn gofyn am sefydlogrwydd a strwythur hirdymor.

O fis Ebrill 2018 ymlaen, bwriedir trosglwyddo'r cyllid ar gyfer Grant Byw'n Annibynnol Cymru, a gymerodd lle'r Gronfa Byw'n Annibynnol, a'i ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol fel rhan o ddarpariaeth prif ffrwd awdurdodau lleol. Bydd y rhai sy'n cael Grant Byw'n Annibynnol Cymru ar hyn o bryd yn cael cymorth drwy wasanaethau a ddarperir neu a drefnir gan awdurdodau lleol neu drwy daliadau uniongyrchol a weinyddir gan awdurdodau lleol.

## Cefndir

Cynllun dewisol a ariannwyd gan Lywodraeth y DU oedd y Gronfa Byw'n Annibynnol, a oedd yn helpu pobl ag anghenion gofal dydd a nos a oedd yn cael elfen gofal gyfradd uwch y Lwfans Byw i'r Anabl. Roedd y Gronfa Byw'n Annibynnol wedi'i dargedu at bobl anabl ag anghenion cymorth cymharol uchel fel dewis arall yn lle gofal preswyl ac fe'i darparwyd yn ychwanegol at wasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol.

Sefydlwyd y Gronfa Byw'n Annibynnol ym 1988 fel cynllun ar gyfer y DU gyfan gyda swyddfeydd yn Nottingham. Roedd yn gweithredu fel ymddiriedolaeth annibynnol yn ôl disgrisiwn a ariannwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ac fe'i rheolwyd gan fwrdd ymddiriedolwyr. Byddai'r rhai a oedd yn gymwys i gael taliadau o'r Gronfa yn defnyddio'r arian i brynu gwasanaethau cymorth, yn enwedig cynorthwyr personol, mewn modd tebyg i Daliadau Uniongyrchol.

Ym mis Rhagfyr 2010, cyhoeddodd Gweinidog Pobl Anabl Llywodraeth y DU fod y Gronfa Byw'n Annibynnol ar gau i geisiadau newydd. Ym mis Rhagfyr 2012, yn dilyn ymgynghoriad ar ddyfodol y Gronfa, cyhoeddwyd y byddai'n cael ei chau yn barhaol o fis Ebrill 2015 ymlaen.

Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2013 penderfynodd y Llys Apêl i gynnal [her gyfreithiol](#) yn erbyn y Llywodraeth ar ôl canfod iddi fethu â chyflawni ei Dyletswydd Gydraddoldeb yn yr ymgynghoriad ar ddyfodol y Gronfa Byw'n Annibynnol ac wrth benderfynu ei chau. Yn dilyn hynny, cynhaliodd yr Adran Gwaith a Phensiynau asesiad effaith cydraddoldeb newydd ac, ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd y Gweinidog dros Bobl Anabl y byddai'r Gronfa Byw'n Annibynnol yn cau ar 30 Mehefin 2015. O 1 Gorffennaf 2015 ymlaen, trosglwyddwyd y cyllid a'r cyfrifoldeb ar gyfer anghenion gofal a chymorth y Gronfa Byw'n Annibynnol i awdurdodau lleol yn Lloegr a'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.



Mae awdurdodau lleol yng **Nghymru** wedi gweinyddu Grant Byw'n Annibynnol Cymru ers 1 Gorffennaf 2015, ac mae'r taliadau i'r rhai a oedd yn arfer cael cymorth drwy'r Gronfa Byw'n Annibynnol wedi parhau. O fis Ebrill 2018 ymlaen, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig trosglwyddo cyllid Grant Byw'n Annibynnol Cymru i awdurdodau lleol ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i'r rhai a oedd yn arfer cael cymorth drwy'r Gronfa Byw'n Annibynnol fel rhan o ddarpariaeth prif ffrwd yr awdurdodau lleol.

Yn **Lloegr**, awdurdodau lleol sydd bellach yn gyfrifol am asesiadau anghenion a threfniadau gofal y rhai a oedd yn arfer cael cymorth drwy'r Gronfa Byw'n Annibynnol.

Yn **yr Alban**, crëwyd [Cronfa Byw'n Annibynnol newydd](#) ar gyfer pobl a oedd yn arfer cael cymorth drwy'r Gronfa Byw'n Annibynnol. Mae cronfa newydd wedi'i chyflwyno yng **Ngogledd Iwerddon** hefyd [yn lle'r Gronfa Byw'n Annibynnol](#), ac fe'i gweinyddir drwy Gronfa Byw'n Annibynnol yr Alban.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymateb i'r ddeiseb.

Mae'n dweud na wrthwynebwyd y penderfyniad i drosglwyddo arian o Grant Byw'n Annibynnol Cymru i wasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol gan y grŵp cynghori rhanddeiliaid, sef y grŵp y mae'r Gweinidog yn ymgynghori ag ef ar benderfyniadau ynghylch yr hen Gronfa Byw'n Annibynnol.

Mae'n dweud hefyd y bydd darparu'r holl wasanaethau gofal cymdeithasol drwy'r awdurdodau lleol yn decach, yn enwedig o gofio bod y Gronfa Byw'n Annibynnol wedi'i chau i ymgeiswyr newydd ers 2010, ac y bydd yn helpu i sicrhau bod pob person anabl yn cael gwasanaethau gofal cymdeithasol yn yr un modd.

Mae'r Gweinidog yn nodi'r opsiynau amgen a ystyriwyd, gan gynnwys trefnu bod y taliadau i'r rhai sy'n gymwys yng Nghymru yn cael eu gweinyddu gan Gronfa Byw'n Annibynnol yr Alban. Mae'n dweud na fyddai'r opsiwn hwn wedi bod ar gael am gryn amser ac y byddai wedi bod yn rhy gostus.



Eich cyf/Your ref Petition P-05-771  
Ein cyf/Our ref RE/00766/17

David J Rowlands AM  
Chair  
Petitions Committee  
National Assembly for Wales

[SeneddPetitions@assembly.wales](mailto:SeneddPetitions@assembly.wales)

21 August 2017

Dear David,

Thank you for your letter seeking my views on a petition submitted to the Petitions Committee by Nathan Lee Davies in relation to the closure of the Welsh Independent Living Grant.

As Mr Davies outlines in his petition, the Welsh Government put in place in 2015 the Welsh Independent Living Grant (WILG) with local authorities to enable them to maintain payments to recipients in Wales of the Independent Living Fund (ILF). This was following the closure at that time of the ILF by the UK Government. We introduced this grant to ensure continuity of support in the short-term for recipients. This was to help them meet the additional costs of living independently in the community in a similar manner to the financial support they received from the ILF. This arrangement was to provide time for us to consider the most appropriate way to provide support to recipients in the longer-term, so as continue their ability to live independently.

As Mr Davies indicates, to assist with our consideration of what that longer-term support should be a stakeholder advisory group had been established. This had representation from the organisations which represent and act for disabled people in Wales (such as Disability Wales and the Dewis Centre for Independent Living), representation from local authorities and some recipients themselves. The majority of the representatives on the advisory group were, as Mr Davies says, from the third sector or had themselves received payments from the ILF. This was because we wanted advice from those who fully appreciated the outcomes disabled people seek and what they required from the arrangements we were to put in place to support their independent living.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales](mailto:Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales)  
[Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 40  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

The advisory group considered a number of potential options to provide support in future to those who used to receive payments from the ILF. These ranged from perpetuating the WILG indefinitely, or for a set period of time, to establishing similar arrangements in Wales to that of the ILF outside of local authorities' provision, to having support provided in future through local authorities' social care. The advisory group considered the advantages and disadvantages of each option in terms of its effectiveness to support former recipients and its fit with supporting the larger group of disabled people in Wales who had been excluded by the UK Government from receiving support from the ILF (as it had in 2010 closed the ILF to new entrants).

I am not sure why Mr Davies thinks the advisory group wished to keep the WILG. On the contrary, overall it accepted that the arrangements we had put in place through the WILG could only ever be temporary while a longer-term solution was found. After considering the potential options in the light of the issues I set out above, the advisory group on balance favoured the option of future support being provided by local authorities as part of their social care provision. None of the members of the advisory group opposed this recommendation.

The advisory group favoured this option as it matched the future support former recipients would receive with that being provided generally to disabled and older people in Wales. This is through our new person-centred ethos for social care being delivered through the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. The Act came into effect from April last year and changes the way people's needs are assessed and the way support is delivered. People now have more of a say in the well-being outcomes they wish to achieve and the care and support they require to deliver those outcomes. This is similar to the ethos behind the original establishment of the ILF. The Act also contains stronger powers to keep people safe from abuse and neglect.

The advisory group also saw this option as the way forward as it removed the inequitable two-tier approach which currently exists to supporting disabled people in Wales, with some receiving only support from their local authority, while others can receive this as well as dedicated payments from the WILG.

It is also important to note that prior to the advisory group's considerations we undertook a public consultation on a number of possible options to provide support in future. While it is true that the majority of those who responded favoured arrangements in Wales similar to those of the ILF, this was not the option favoured by all recipients who responded. Indeed the vast majority of recipients did not respond to the consultation at all. Nevertheless, my officials did contact those in the Scottish Government to establish the basis of the dedicated support arrangements for former ILF recipients in Scotland and the possibility of those arrangements being extended to Wales.

While ILF Scotland could administer and make payments on behalf of the Welsh Government, it became clear it would not be in a position to do this for a considerable period of time. In addition, it required significant set-up and operating funding to administer our payments, totalling in the first year of operation well over £1 million with annual operating funding in excess of £0.750 million. Such funding would have needed to be top-sliced from the overall funding available to support former recipients in Wales, thereby substantially reducing the funding available for their support itself. On this basis we did not believe that these arrangements would be acceptable given the reduction in support to which it would lead, or that they provided good value for money. Overall the advisory group shared this view and was keen that already limited funds were not used disproportionately on establishing and maintaining separate arrangements to provide support.

Consequently, I accepted the stakeholder advisory group's advice to have support to former ILF recipients in Wales provided in future by local authorities as part of their social care provision. To put this into place the advisory group also recommended that there should be a two year transitional period, whereby in the first year authorities establish all recipients' desired well-being outcomes and agree with them the support they require to achieve these. In the second year recipients would transfer over to receiving all of their support from their local authority, with their payments under the WILG ceasing at the point at which this occurred. I also accepted this recommendation in full, with as a result the transitional period commencing from 1 April this year and due to conclude on 31 March 2019.

Clearly those who wished to see a different option chosen will be disappointed with the decision taken. However, that decision did not ignore the advice of the representatives of disabled people in Wales on the stakeholder advisory group but was fully in accordance with it.

Yours sincerely,

A handwritten signature in cursive script that reads "Rebecca".

**Rebecca Evans AC/AM**

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Social Services and Public Health

**P-05-771 Reconsider the closure of the Welsh Independent Living Grant and support disabled people to live independently – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 28.09.17**

Dear Mr Rowlands

Many thanks for accepting my petition at the Senedd on September 20 and for taking the time to listen to my concerns regarding the closure of the Welsh Independent Living Grant (WILG). I also appreciate the right to reply to the letter regarding my petition written by Rebecca Evans AM.

As outlined in my petition, the Welsh Government put WILG in place with local authorities to enable them to maintain payments to recipients in Wales of the Independent Living Fund (ILF). This was following the closure at that time of the ILF by the UK Government in 2015. The Grant was introduced to ensure continuity of support in the short-term for recipients.

This move did help Local Authorities to support individuals to meet the additional costs of living independently in the community in a similar manner to the financial support they received from the ILF. However, it has not allowed for any increased payments to cover any change in circumstances, a particular problem for those of us with progressive conditions. I had faith that the Welsh Government would resolve this issue after holding a consultation into how best to provide support to recipients in the longer-term, so as continue our ability to live independently.

A stakeholder advisory group was established that included a number of my contacts as well as representatives from local authorities. The advisory group considered a number of potential options to provide support in future to those who used to receive payments from the ILF. These ranged from perpetuating the WILG indefinitely, or for a set period of time, to establishing similar arrangements in Wales to that of the ILF outside of local authorities' provision [option 4] to having support provided in future through local authorities' social care. The advisory group considered the advantages and disadvantages of each option in terms of its effectiveness to support former recipients and its fit with supporting the larger

group of disabled people in Wales who had been excluded by the UK Government from receiving support from the ILF (as it had in 2009 closed the ILF to new entrants).

I have a real problem with the assertion from the Minister that the stakeholder group were united in agreement with the closure of WILG and the transferring of funds to local authorities. This was quite simply not the case and I request that she provides evidence in support of her claim that "the advisory group on balance favoured the option of future support being provided by local authorities as part of their social care provision. None of the members of the advisory group opposed this recommendation." For instance, was a vote held in the stakeholder advisory group? If so, on what date, what was the result, and can the minutes of that meeting please be provided?

I have spoken to several members of the advisory group who DID oppose LA provision. Surely, this calls into question the basis for the Minister's decision. There's been a total lack of imagination on the part of the Welsh government in terms of creating an independent living plan that all local authorities must buy into. This would be a guarantee of ensuring equity across Wales.

However, this option [option 4] was not given a fair hearing during the stakeholder sessions despite its popularity across Wales when all options were put out for consultation. We were unforgivably never given the result of this consultation, and it seems churlish for the Minister to say that many people – with high care and support needs and lack of empowerment – did not reply. The percentage of voters in general elections has been disappointing for many years, but that does not make our political representatives invalid. I would also challenge the Minister to release the data collected in the consultation.

The members of the stakeholder group that I have spoken to have stated their frustrations with the whole process: "I disagreed with one side of the room almost continuously," and "I would be amazed to see minutes of a meeting where all participants agreed that passing this WILG over to the local authority beyond the ring-fenced period was the way forward." Others have said "I used to go home from all these stakeholder groups thinking we had agreed certain things to discover that was not what had been recorded." and other activists argue that many officials and civil servants do not actually "know what Independent Living means – they still think 'independent' means managing without support".

It would greatly assist me in understanding Welsh Government's decision making process on this issue if the minutes of all of the meetings of the stakeholder advisory group can be provided, and I will submit a Freedom of Information Act request if necessary.

The short-sightedness of the Welsh Government is also highlighted by developments in Northern Ireland where they have recently decided to use the ILF model to support all community living for disabled people.

I would like to ask the Petitions Committee to ask the Minister to provide a copy of the Equalities Impact Assessment (EqIA) on which the policy decision was based. If the Minister cannot show a genuine and thorough EqIA then I would have thought the policy change has little legal standing. A former member of the stakeholder group recalls that: "at one stage there was a jump from all options being on the table (including a Welsh ILF) to "this is what's been decided", without an EqIA being carried out."

I think that the future of Independent Living in Wales depends on a robust enforcement of the Social Services & Wellbeing (Wales) Act. If local authorities make genuine efforts to empower individuals to identify and achieve their Personal Wellbeing Outcomes and access all aspects of Independent Living as a civil and human right that would be great. However, I am not holding my breath. The SSWB Act was promoted by officials as "a guaranteed enforceable right to independent living". This is all positive stuff on paper, but unfortunately disabled people do not live on paper and in the real world we need to see a tough enforcement of this Act. While we wait for this to happen - I do not expect it to be truly functional in my lifetime - we need a necessary protection for those with high care and support needs such as WILG. I would therefore ask the Minister to delay ending WILG until she has concrete evidence that all 22 authorities are genuinely supporting people to achieve their identified wellbeing outcomes. A Stakeholder Group to look at this would be a transparent means to allay people's genuine fears.

One very practical way for Welsh Government to respond to the UN Disability Committee's concerns about disabled people's rights in the UK is to reconsider its misguided policy on supporting former ILF recipients. For more information, please refer to the following link:

<https://assemblyinbrief.wordpress.com/2017/09/19/rights-of-disabled-people-how-the-un-committees-findings-relate-to-wales/>

I understand that Welsh Government's Framework for Action on Independent Living is currently being reviewed. I very much hope that the Framework will be strengthened as a result and that in particular, the rights of former ILF recipients will be supported by Welsh Government re-convening the

stakeholder advisory group to reconsider its WILG policy.

Finally, I would like to draw your attention to the situation in England following the closure of ILF in 2015 when money was transferred to Local Authorities in the same manner that is being proposed by the Welsh Government. This cannot be allowed to happen in Wales. A report by the Department for Work and Pensions (DWP) shows that former recipients of the ILF in England experienced a loss of support, a greater reliance on unpaid care and an “adverse” impact on their physical and mental health after its closure. All of these concerns were raised by disabled activists who campaigned against the decision to close the fund, before it shut in June 2015.

Those former recipients who saw their support “heavily reduced” as a result of the closure – which saw non-ring-fenced funding passed by the government to local authorities – “experienced multiple changes” to their lives.

The report says: “They argued that reductions in care were unfair and denied them opportunities to participate fully in society.

“They encountered changes and restrictions to daily activities, including less support for engaging in leisure activities, work and volunteering.”

Some of those who took part in the DWP study said that the “heavy reduction in care” they had experienced had damaged their physical and mental health, with effects such as loneliness, weight loss, and frailty “due to worry, or due to the physical demands of having to perform everyday activities without the support of a carer”.

I have also included three links at the bottom of this letter that will lead you to further information and reports on the dire situation that disabled people find themselves living with in 21<sup>st</sup> Century England. This is hardly in keeping with the Welsh Government’s landmark SSWb Act.

I could go on and on all evening about the problems that the closure of WILG will present to disabled people and their families. I haven’t even mentioned the impact it will have on support workers who rely on WILG for their income. As an employer, I do not want to have to tell my team of personal assistants that I will no longer be able to employ them.

In May 2015, I was told by my Local Authority, that without the protection of WILG my hours of care and support could be reduced from 86.5 hours a week – totally inadequate for a rapidly progressive disease – to only 31 hours per week. As an active member of the community, this



would cause isolation and depression. I have no interest in merely existing. I want to live my life like everybody else and I feel that I have become an integral part of my community through involvement with Disability Wales, the Care and Social Services Inspectorate for Wales, Glyndwr University, Wrexham AFC and FDF Centre for Independent Living. This is not to mention my work as an author and poet while I have also been awarded an Honorary Fellowship from Glyndwr University for my work in Disability Rights. To have my hours reduced so drastically – as threatened by my social worker – would have a devastating impact to me and others.

I wish I could write more but time is at a premium. I look forward to hearing the outcome of the petition committee's discussions and have faith that the National Assembly will not turn their backs on disabled people with high care and support needs.

Should you need any further information please do not hesitate to get in touch using my contact details above.

Yours sincerely

Nathan Lee

Davies

Please find below links to three different reports into the effects of the ILF closure in England:

<https://www.gov.uk/government/publications/independent-living-fund-post-closure-review>

<https://www.inclusionlondon.org.uk/campaigns-and-policy/facts-and-information/independent-living-social-care-and-health/ilf-one-year-on/>

<https://www.disabilitynewsservice.com/independent-living-fund-shocking-drop-in-support-after-ilf-closure/>

In addition, I have added some links below concerning my own fight for the continuation of WILG:

<http://www.leaderlive.co.uk/news/2015/07/07/gallery/our-fight-to-fund-independent-lives-in-flintshire-and-wrexham-74959/#.VZu96zMTWf4.twitter>

<http://www.disabilitynewsservice.com/welsh-government-has-sold-disabled-people-down-the-river-on-post-ilf-plans/>

[http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-](http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-38385381?SThisFB)

[38385381?SThisFB](http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-38385381?SThisFB)

[https://nathanleedavies.wordpress.com/save-wilg-](https://nathanleedavies.wordpress.com/save-wilg-campaign/)

[campaign/](https://nathanleedavies.wordpress.com/save-wilg-campaign/)

<https://www.disabilitynewsservice.com/disabled-activist-is-fighting-for-his-life-as-he-hands-petition-to-welsh-government/>

### P-05-773 Peidiwch â Llenwi Safleoedd Tirlenwi!

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Claire Perrin, ar ôl casglu 33 o lofnodion ar-lein a 139 ar bapur – cyfanswm o 172 lofnodion.

#### Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i naill ai rhoi sticeri bin du newydd ([gweler yr enghraifft sydd wedi'u chynnwys\\*](#)) neu finiau olwyn printiedig sy'n annog aelwydydd ledled Cymru i ystyried cynnwys y bin cyn ei adael ar ymyl y ffordd i'w gasglu.

Teimlwn, drwy ddisgrifio'r bin yn benodol fel bin 'tirlenwi', y bydd hyn yn fodd o atgyfnerthu'r ystyriaeth a roddir i'r eitemau sydd ynddo. Rydym wedi cynnwys ychydig o wybodaeth ffeithiol am faint o amser y bydd rhai eitemau bob dydd yn aros mewn safleoedd tirlenwi os nad ydynt yn cael eu hailgylchu. Credwn fod hyn yn bwerus iawn, ac y gall wella ymrwymiad Cymru i ailgylchu, ac felly y byddwn yn cyrraedd ein targedau ar gyfer y dyfodol.

Yn y pen draw, rydym am annog pobl i ailgylchu rhagor, yn ogystal â helpu i leihau faint o nwyddau ailgylchadwy sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.

*\*Dim ond fersiwn Saesneg o'r ddelwedd sydd ar gael oherwydd y cafodd ei chyflwyno fel rhan o'r ddeiseb.*

#### Gwybodaeth ychwanegol:

Fy enw i yw Claire Perrin ac rwy'n athrawes yn y Celtic English Academy. Ar ddechrau'r tymor hwn, dechreuais brosiect dosbarth ar ailgylchu, ac anogais fy neg o ddisgyblion i nodi'r opsiynau posibl sydd gan breswylwyr yn y brifddinas. Darganfuwyd hefyd bod Cymru'n rhagori ar ei hymrwymiad i leihau gwastraff tirlenwi erbyn 2025 a'i bod yn arwain y ffordd i weddill y DU o ran gwella mynediad at ganolfannau ailgylchu ac o ran casgliadau o gartrefi yn gyffredinol.

Fodd bynnag, dechreuodd fy nisgyblion sylwi bod llawer o bobl nad ydynt yn ailgylchu'n gywir. Rydym wedi cynnwys enghreifftiau ffotograffig o fagiau ailgylchu gwyrdd mewn biniau olwyn du, bwyd mewn bagiau gwyrdd a du ar ymyl ffyrdd ac eitemau y gellir eu hailgylchu mewn bagiau du. Cynhaliwyd trafodaethau yn y dosbarth ar y rhesymau posibl pam bod hyn yn digwydd. Cynhaliwyd arolwg hefyd a oedd yn gofyn i bobl adnabod y nwyddau ailgylchadwy yn y rhestr ganlynol:

Cynhwysyddion bwyd anifeiliaid anwes; eitemau hylendid personol; dalenni alwminiwm; cynhwysyddion bwyd cyflym; cylchgronau; pecynnau creision; bocsys wyau; bagiau plastig; dillad

Canfuwyd bod llawer o bobl nad oeddent yn gwybod pa eitemau y mae modd eu hailgylchu. Darganfuwyd hefyd nad oedd pobl yn ystyried faint o amser y mae'n ei gymryd i eitemau safleoedd tirlenwi bydru. Pan wnaethom roi gwybod hyn iddynt, cawsant gryn sioc ac roeddent yn awyddus i wneud rhagor i ailgylchu. Roedd hyn yn sbardun i ni ddod o hyd i ateb posibl i faint o eitemau a roddir, yn anghywir, mewn bagiau du / gwyrdd, a byddai modd cyflwyno'r cam hwn ar draws Cymru, a thrwy hynny annog pobl i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros reoli eu gwastraff ac yn hynny o beth, atal eitemau y gellir eu hailgylchu rhag cael eu hanfon yn syth i safleoedd tirlenwi.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Gogledd Caerdydd
- Canol De Cymru

## Deiseb: P-05-773 Peidiwch â Llenwi Tirlenwi

Y Pwyllgor Deisebau | 3 Hydref 2017

Petitions Committee | 3 October 2017

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-773

Teitl y ddeiseb: P-05-773 Peidiwch â Llenwi Tirlenwi

Testun y Ddeiseb: Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i naill ai cyflwyno sticeri newydd ar gyfer biniau olwynion du (gweler yr enghraifft isod) neu finiau olwynion printiedig sy'n annog cartrefi ledled Cymru i ystyried cynnwys y bin cyn ei adael ar ochr y ffordd i'w gasglu.

Teimlwn, trwy ddisgrifio'r bin yn benodol fel bin 'tirlenwi', bydd hyn yn atgyfnerthu ystyriaeth o ran yr eitemau sydd ynddo. Rydym wedi cynnwys rhywfaint o wybodaeth ffeithiol am faint o amser y bydd rhai eitemau bob dydd yn aros mewn safleoedd tirlenwi os na chânt eu hailgylchu. Credwn fod hyn yn bwerus iawn ac efallai y bydd yn gwella ymrwymiad Cymru i ailgylchu ac felly cwrdd â'n targedau ar gyfer y dyfodol.

Yn y pen draw, rydym am annog pobl i ailgylchu mwy yn ogystal â helpu i leihau'r nwyddau ailgylchadwy sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.



Ffigur 1 Enghraifft o sticer bin olwynion

## Cefndir

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth [Tuag at Ddyfodol Diwastraff](#) ym mis Mehefin 2010. Mae'r strategaeth yn nodi fframwaith hirdymor ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff hyd at 2050. Mae'n nodi'r canlyniadau y mae Llywodraeth Cymru yn dymuno eu cyflawni, yn gosod targedau lefel uchel ac yn gosod dull cyffredinol at gyflawni targedau a champau allweddol eraill. Mae'r strategaeth yn gosod nod ar gyfer **bod mor agos â phosibl at ddim tirlenwi (<5%) erbyn 2025**, gydag uchelgais o ddim gwastraff erbyn 2050.

O fis Ebrill 2018, **bydd Treth Gwarediadau Tirlenwi (LDT)** yn disodli'r Dreth Tirlenwi yng Nghymru. Fel y Dreth Tirlenwi oedd yn rhagflaenydd iddi, bydd Treth Gwarediadau Tirlenwi yn dreth ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi a chodir y dreth yn ôl pwysau. Bydd yn daladwy gan weithredwyr safleoedd tirlenwi, sy'n trosglwyddo'r costau hyn i weithredwyr gwastraff trwy eu ffi giât. Mae Treth Tirlenwi wedi bod yn sbardun sylweddol i wella ymddygiad amgylcheddol; gan annog mwy o atal, aildefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff.

Mae gan Gymru'r gyfradd ailgylchu uchaf yn y DU, yr ail uchaf yn Ewrop, a'r trydydd uchaf yn y byd. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu targedau ailgylchu ar gyfer pob un o 22 awdurdod lleol Cymru mewn ymgais i gynyddu ailgylchu. Roedd yn rhaid i awdurdodau ailgylchu 58% o'u gwastraff erbyn 2016–17, gan godi i 64% erbyn 2019–20 a 70% erbyn 2024–25. Adolygir y ffigurau bob tri mis a chânt eu hychwanegu at gyfanswm treigl 12 mis dros dro. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer y 12 mis hyd at ddiwedd Mawrth 2017, gyda'r data terfynol yn cael ei ryddhau ym mis Hydref. [Mae data dros dro am y 12 mis hyd at fis Mawrth 2017](#) (a gyhoeddwyd ym mis Awst) yn dangos cynnydd o 4% ar gyfradd ailgylchu 60% y flwyddyn flaenorol. Dangosodd y ffigurau fod pob un ond un awdurdod lleol – Blaenau Gwent – wedi cwrdd â tharged cyfredol 2016–17. Yr awdurdod lleol oedd yn perfformio orau oedd Ceredigion, gan ailgylchu 70% o'i wastraff a tharo'r targed 2025 naw mlynedd yn gynnar. Er bod Blaenau Gwent wedi methu'r targed o 58%, roedd ei gyfradd ailgylchu o 57% yn gynydd ar y 49% a welwyd flwyddyn yn gynharach.

### Gwastraff bagiau du/gweddilliol

Un o nodau strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru yw lleihau faint o wastraff gweddilliol a gynhyrchir gan aelwydydd. Mae llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cyflwyno cyfyngiadau ar faint o fagiau du y gellir eu rhoi allan i'w casglu, ac mae gwastraff bagiau du yn cael ei gasglu yn llai aml nag ailgylchu (fel arfer bob 2–3 wythnos) i annog mwy o ailgylchu. [Mae ystadegau diweddaraf Llywodraeth Cymru \(Ionawr i Fawrth 2017\)](#) yn dangos bod mwy na hanner yr awdurdodau lleol yng Nghymru wedi nodi gostyngiad yn y gwastraff aelwydydd gweddilliol a gynhyrchir fesul person, o'i gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn

flaenorol. Mae gwastraff gweddilliol fesul annedd hefyd wedi gostwng o 111 i 106 kg fesul annedd.

Yn ôl y ffigurau a ddyfynnwyd yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet i'r Pwyllgor, yn 2015–16 anfonwyd mwy na 300,000 tonnell fetrig o wastraff trefol (gwastraff bagiau du/gweddilliol) i'w llosgi gan adennill ynni a chafodd llai na 290,000 tonnell fetrig eu hanfon i safleoedd tirlenwi. **Dywed fod hyn yn dangos cyfyngiad dull seiliedig ar labelu biniau fel rhai ar gyfer 'tirlenwi'** gan yn gynyddol mae'r cynnwys yn cael ei anfon i'w losgi gan adennill ynni.

## Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru

Yn ei llythyr, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cytuno bod angen gwneud mwy i berswadio pobl i wahanu eu gwastraff yn well, er mwyn sicrhau bod llai o wastraff ailgylchadwy a gwastraff bwyd yn cael eu rhoi mewn biniau gwastraff gweddilliol.

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru o swyddogion a chynrychiolwyr Llywodraeth Leol wedi cytuno bod angen menter newid ymddygiad newydd, gyda'r nod o ddargyfeirio cymaint o ddeunydd ailgylchadwy â phosibl o wastraff gweddilliol i gynwysyddion ailgylchu, gan gynnwys blychau gwastraff bwyd. Dywed Ysgrifennydd y Cabinet fod y fenter ar hyn o bryd yn y camau dylunio, ac mae'n gobeithio y bydd yn cychwyn yn 2018. Mae'r llythyr yn amlinellu bod sawl agwedd ar newid ymddygiad, gan gynnwys:

- Darparu'r seilwaith casglu cywir ar gyfer trigolion i wahanu deunyddiau ailgylchadwy a gwastraff bwyd yn effeithiol o wastraff na ellir ei ailgylchu;
- Rhoi arweiniad ar sut y dylid defnyddio'r gwasanaethau hyn a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd am yr angen i'w defnyddio; a
- Darparu gorfodaeth effeithiol yn erbyn y rhai sy'n methu'n barhaus â pherfformio eu dyletswydd ddinesig i wahanu deunyddiau i'w hailgylchu.

Mae hi'n mynd ymlaen i ddweud bod sawl awdurdod lleol yng Nghymru wedi rhoi sticeri ar finiau olwynion gan ddweud na ddylid rhoi gwastraff bwyd ynddynt, ac y cafwyd bod hyn yn cynyddu maint y gwastraff bwyd a gesglir ar wahân. O ran sticeri ar finiau'n fwy eang, dywed:

Mae'n bosib y bydd gosod sticeri ar finiau yn rhan o fentrau yn y dyfodol, ond mae cymaint mwy i berswadio pobl i ailgylchu'n effeithiol.

## Camau Gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r rhan fwyaf o'r drafodaeth ar dirlenwi yn y Cynulliad wedi canolbwyntio ar y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (a amlinellir uchod). Yn 2014, cynhaliodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd [ymchwiliad i bolisi ailgylchu yng Nghymru](#). Ffocws yr ymchwiliad oedd sut i

wella cyfraddau ac ymarfer ailgylchu yng Nghymru, ac nid oedd yn mynd i'r afael yn benodol â mater gwastraff gweddilliol. Fodd bynnag, daeth y Pwyllgor i'r casgliad a ganlyn:

Gallai cyfuniad o gyfathrebu ac ymgysylltu da, ynghyd â gostyngiad mewn casgliadau gwastraff gweddilliol ('bagiau du'), wella cyfraddau ailgylchu eto. Er y gallai fod rôl i ddefnyddio cosbau ariannol yn y dyfodol, byddai'n rhy gynnar i ystyried eu cyflwyno hyd nes bod y ffyrdd eraill o annog pobl wedi methu.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall o reidrwydd i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Lesley Griffiths AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-773  
Ein cyf/Our ref LG/01906/17

David John Rowlands AM  
Chair - Petitions committee.  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff Bay  
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

23 August 2017

Dear David

Thank you for your letter of 10 August, regarding the petition P-05-773 'Don't Fill Landfill'.

It is encouraging that a teacher and her class have given so much thought to the issues of recycling and how it can be encouraged.

There is a role for either stickers or printing on wheeled bins. Several Welsh Local Authorities have placed stickers on wheeled bins advising food waste should not be deposited in them and it has been shown this has helped to increase the amount of separate collection of food waste in associated premises. Too much information being placed on bins risks confusing residents with too much information. In most Local Authority areas across Wales, most residents are aware the residual bin or sack should not be used to deposit recyclable materials or food wastes.

This is borne out by the very high recycling rate achieved by the residents of Wales, enabled by the excellent collection services provided by Local Authorities. Wales has the highest recycling rate in the UK, the second highest in Europe and the third highest in the world and I am determined Wales will soon become number one in the world for recycling.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 55**

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

In 2015-16 more than 300,000 tonnes of municipal waste were sent for incineration with energy recovery and fewer than 290,000 tonnes were sent to landfill. This demonstrates the limitation of an approach based on labelling bins as being for 'landfill'. Wales is rapidly reducing its reliance on landfill. In 2002-03 just 61 tonnes of municipal waste were sent to incineration with energy recovery and almost 155,000 tonnes were sent to landfill, illustrating how far we have come. Use of landfill will fall in future years, especially when a new energy from waste plant is commissioned on Deeside.

The petition as drafted is therefore inherently flawed. That said, the motives behind the petition are laudable and I share them. Half of the material in the residual bin or sack is easily recycled material, including food waste. We need to do more to persuade people to better separate their wastes.

A Task & Finish Group of Welsh Government officials and representatives of Local Government has agreed that there should be a new behaviour change initiative with the purpose of diverting as much recyclable material as possible out of residual waste and into the recycling containers, including food waste caddies. The initiative is being designed at the moment and I hope it will start in 2018.

There are many aspects to promoting behaviour change and these include:

- Providing the right collection infrastructure for residents to effectively separate recyclables and food waste from non-recyclable wastes.
- Providing advice on how these services should be used and raising public awareness about the need to use them.
- Providing effective enforcement against those who persistently fail to perform their civic duty to separate materials for recycling. It should become socially unacceptable for people not to recycle.

It may be that placing stickers on bins will have a role as part of future initiatives, however, there is so much more to persuading people to recycle effectively.

I am very ambitious about the future of recycling, waste prevention and resource efficiency in Wales. I want us to meet and exceed the 70% recycling target set for 2024-25 several years early and we are on course to do that. I will consult next year on when an 80% target should be set. At the same time I will consult on an aspirational target to halve the amount of food waste produced from a baseline in the year 2006-07. There will be new measures to ensure that industrial and commercial waste producers follow the same path as residents and separate their wastes for recycling.

Recycling and resource efficiency are already huge successes for Wales and are contributing to economic growth, new jobs and opportunities for individuals and communities across Wales. I hope the Petitions Committee will agree that whilst the intentions behind the petition P-05-773 are very worthy the proposals themselves are not well suited to the clear strategy for the future.

Regards  
Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs



### P-05-774 Ewch Heibio'n Llydan ac yn Araf (Cymru)

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Jocelle Lovell, ar ôl casglu 723 o lofnodion ar-lein a 1,032 ar bapur – cyfanswm o 1,755 lofnodion.

#### Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i weithredu ymgyrch ddiogelwch 'addysg gyhoeddus' flynyddol i addysgu holl ddefnyddwyr y ffordd sut i fynd heibio i geffylau a marchogwyr yn ddiogel, ac sy'n tynnu sylw at y peryglon / canlyniadau o beidio â gwneud hynny.

Rydym yn ymwybodol o ddeiseb yn y DU gyfan sy'n ymgyrchu dros lunio cyfraith ar basio ceffylau ar y ffordd yn llydan ac araf (<https://www.change.org/p/uk-govt-make-it-law-to-pass-by-a-horse-wide-and-slow-and-abide-by-our-hand-signals>) ac yn ei chefnogi, ond byddai'n well gennym weld addysg a dulliau atal yn hytrach na gweld erlyniadau yn dilyn digwyddiad difrifol neu angheuol.

Mae gan Lywodraeth Cymru y cyfle i fanteisio ar y deunyddiau a'r wybodaeth sydd eisoes ar gael yn sgîl ymgyrchoedd presennol fel: 'Dead Slow', sef ymgyrch diogelwch ar y ffordd Cymdeithas Ceffylau Prydain, (<http://www.bhs.org.uk/safety-and-accidents/dead-slow>), tra bydd yn pwysleisio materion penodol sy'n wynebu defnyddwyr y ffordd yng Nghymru. Mae'r materion hyn yn cynnwys y cysylltiadau agos rhwng cymunedau trefol a chymunedau gwledig yng Nghymru, a phoblogrwydd Cymru fel cyrchfan i dwristiaid. Mewn cymunedau mwy trefol (e.e. yr ardal gymudo o amgylch Caerdydd), mae swm sylweddol o draffig sy'n defnyddio ffyrdd gwledig, naill ai fel llwybr byr neu fel prif lwybr mynediad. Mewn rhannau eraill o Gymru (e.e. Caerfyrddin a Sir Benfro) ceir mewnlifiad blynyddol o ymwelwyr nad oes ganddynt lawer o brofiad o weld ceffylau ar y ffyrdd.

Y cyfan a ofynnwn yw bod gyrwyr yn dynodi marchogwyr fel defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed, a bod yn fwy ystyriol wrth fynd heibio i geffylau. Rydym yn teimlo mai'r ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy arweiniad Llywodraeth Cymru, yn unol â'u hymrwymiad i 'Weithio gyda chynrychiolwyr o'r gymuned marchogaeth i ddeall eu pryderon ynghylch diogelwch y ffyrdd

a sut i hwyluso ymgysylltiad â phartneriaid eraill.' (Fframwaith Diogelwch y Ffyrdd Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2013)).

### **Gwybodaeth ychwanegol:**

Mae Cymdeithas Ceffylau Prydain (BHS) yn amcangyfrif bod y diwydiant ceffylau o werth economaidd o £7 biliwn, a'i fod yn cyflogi 220,000 – 270,000 o bobl. Mae hyn, ochr yn ochr â'r manteision iechyd a lles sy'n gysylltiedig â marchogaeth ceffylau yn golygu ei fod yn rhan bwysig o fywyd Cymru. Ond, yn gynyddol, teimlir nad yw llais marchogwyr yn cael ei glywed.

Byddai llawer o farchogwyr yn dewis peidio â defnyddio priffyrdd cyhoeddus, ond, gan fod faint o lwybrau ceffylau hygyrch sydd ar gael yn amrywio ledled Cymru, nid oes fawr o ddewis ganddynt yn aml iawn.

Mae Fframwaith Diogelwch y Ffyrdd Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2013) yn cydnabod bod ceffylau a'u marchogwyr (yn ogystal â gyrwyr cerbydau ceffylau) yn agored i niwed ar y rhwydwaith ffyrdd, ac y gall gwrthdrawiad rhwng ceffyl a cherbyd arwain at ganlyniadau sy'n bygwth bywyd ar gyfer y ceffyl, y marchog a phobl mewn ceir a cherbydau eraill. Mae hefyd yn datgan bod yna dystiolaeth sy'n awgrymu nad oes cofnod manwl o nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd sy'n ymwneud â cheffylau.

Wrth i nifer y tai newydd sy'n cael eu hadeiladu mewn lleoliadau gwledig / lled-wledig gynyddu, gwelir cynnydd yn swm y traffig ar ffyrdd gwledig, sy'n cael eu defnyddio'n aml gan beiriannau fferm, ceffylau a marchogion. Mae llawer o yrwyr, newydd a phrofiadol, yn aml nad ydynt yn gwybod am y peryglon posibl o yrru'n gyflym ar y ffyrdd hyn, ac nid yw llawer yn gwybod sut i basio ceffylau yn ddiogel. Nid yw'r ffaith bod y terfyn cyflymder cyfreithiol ar y ffyrdd hyn yn 60 milltir yr awr, yn golygu ei bod yn ddiogel i yrru ar y cyflymder hwnnw.

Ar ben hynny, mae tystiolaeth gan Gymdeithas Ceffylau Prydain (<http://www.bhs.org.uk/our-charity/press-centre/news/jan-to-jun-2016/riding-and-road-safety-campaign>) sy'n dangos bod cynnydd o ran y digwyddiadau sy'n ymwneud â cheffylau, marchogion a cherbydau modur ar y ffordd ym mis Mehefin. Er bod y rhesymau dros y cynnydd hwn yn parhau'n aneglur, mae'n bosibl eu bod yn ymwneud â gyrwyr ar eu gwyliau ar ffyrdd anghyfarwydd mewn amgylchiadau anghyfarwydd.

## **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- De Caerdydd a Phenarth
- Canol De Cymru

## Papur briffio ar ddeiseb – P-05-774 Ewch Heibio'n Llydan ac yn Araf (Cymru)

Y Pwyllgor Deisebau | 3 Hydref 2017  
Petitions Committee | 3 October 2017

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: P-05-774

Teitl y ddeiseb: Ewch Heibio'n Llydan ac yn Araf (Cymru)

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i weithredu ymgyrch ddiogelwch 'addysg gyhoeddus' flynyddol i addysgu holl ddefnyddwyr y ffordd sut i fynd heibio i geffylau a marchogwyr yn ddiogel, ac sy'n tynnu sylw at y peryglon / canlyniadau o beidio â gwneud hynny.

Rydym yn ymwybodol o ddeiseb yn y DU gyfan sy'n ymgyrchu dros lunio cyfraith ar basio ceffylau ar y ffordd yn llydan ac araf (<https://www.change.org/p/uk-govt-make-it-law-to-pass-by-a-horse-wide-and-slow-and-abide-by-our-hand-signals>) ac yn ei chefnogi, ond byddai'n well gennym weld addysg a dulliau atal yn hytrach na gweld erlyniadau yn dilyn digwyddiad difrifol neu angheuol.

Mae gan Lywodraeth Cymru y cyfle i fanteisio ar y deunyddiau a'r wybodaeth sydd eisoes ar gael yn sgîl ymgyrchoedd presennol fel: 'Dead Slow', sef ymgyrch diogelwch ar y ffordd Cymdeithas Ceffylau Prydain, (<http://www.bhs.org.uk/safety-and-accidents/dead-slow>), tra bydd yn pwysleisio materion penodol sy'n wynebu defnyddwyr y ffordd yng Nghymru. Mae'r materion hyn yn cynnwys y cysylltiadau agos rhwng cymunedau trefol a chymunedau gwledig yng Nghymru, a phoblogrwydd Cymru fel cyrchfan i dwristiaid. Mewn cymunedau mwy trefol (e.e. yr ardal gymudo o amgylch Caerdydd), mae swm sylweddol o draffig sy'n defnyddio ffyrdd gwledig, naill ai fel llwybr byr neu fel prif lwybr mynediad. Mewn rhannau eraill o Gymru (e.e. Caerfyrddin a Sir Benfro) ceir mewnlifiad blynyddol o ymwelwyr nad oes ganddynt lawer o brofiad o weld ceffylau ar y ffyrdd.

Y cyfan a ofynnwn yw bod gyrrwyr yn dynodi marchogwyr fel defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed, a bod yn fwy ystyriol wrth fynd heibio i geffylau. Rydym yn teimlo mai'r ffordd



orau o gyflawni hyn yw drwy arweiniad Llywodraeth Cymru, yn unol â'u hymrwymiad i 'Weithio gyda chynrychiolwyr o'r gymuned marchogaeth i ddeall eu pryderon ynghylch diogelwch y ffyrdd a sut i hwyluso ymgysylltiad â phartneriaid eraill.' (Fframwaith Diogelwch y Ffyrdd Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2013)).

Mae Cymdeithas Ceffylau Prydain (BHS) yn amcangyfrif bod y diwydiant ceffylau o werth economaidd o £7 biliwn, a'i fod yn cyflogi 220,000 – 270,000 o bobl. Mae hyn, ochr yn ochr â'r manteision iechyd a lles sy'n gysylltiedig â marchogaeth ceffylau yn golygu ei fod yn rhan bwysig o fywyd Cymru. Ond, yn gynyddol, teimlir nad yw llais marchogwyr yn cael ei glywed.

Byddai llawer o farchogwyr yn dewis peidio â defnyddio priffyrdd cyhoeddus, ond, gan fod faint o lwybrau ceffylau hygyrch sydd ar gael yn amrywio ledled Cymru, nid oes fawr o ddewis ganddynt yn aml iawn.

Mae Fframwaith Diogelwch y Ffyrdd Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2013) yn cydnabod bod ceffylau a'u marchogwyr (yn ogystal â gyrwyr cerbydau ceffylau) yn agored i niwed ar y rhwydwaith ffyrdd, ac y gall gwrthdrawiad rhwng ceffyl a cherbyd arwain at ganlyniadau sy'n bygwth bywyd ar gyfer y ceffyl, y marchog a phobl mewn ceir a cherbydau eraill. Mae hefyd yn datgan bod yna dystiolaeth sy'n awgrymu nad oes cofnod manwl o nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd sy'n ymwneud â cheffylau.

Wrth i nifer y tai newydd sy'n cael eu hadeiladu mewn lleoliadau gwledig / lled-wledig gynyddu, gwelir cynnydd yn swm y traffig ar ffyrdd gwledig, sy'n cael eu defnyddio'n aml gan beiriannau fferm, ceffylau a marchogion. Mae llawer o yrwyr, newydd a phrofiadol, yn aml nad ydynt yn gwybod am y peryglon posibl o yrru'n gyflym ar y ffyrdd hyn, ac nid yw llawer yn gwybod sut i basio ceffylau yn ddiogel. Nid yw'r ffaith bod y terfyn cyflymder cyfreithiol ar y ffyrdd hyn yn 60 milltir yr awr, yn golygu ei bod yn ddiogel i yrru ar y cyflymder hwnnw.

Ar ben hynny, mae dystiolaeth gan Gymdeithas Ceffylau Prydain (<http://www.bhs.org.uk/our-charity/press-centre/news/jan-to-jun-2016/riding-and-road-safety-campaign>) sy'n dangos bod cynnydd o ran y digwyddiadau sy'n ymwneud â cheffylau, marchogion a cherbydau modur ar y ffordd ym mis Mehefin. Er bod y rhesymau dros y cynnydd hwn yn parhau'n aneglur, mae'n bosibl eu bod yn ymwneud â gyrwyr ar eu gwyliau ar ffyrdd anghyfarwydd mewn amgylchiadau anghyfarwydd.

## Cefndir

### Cyfrifoldeb am ddiogelwch ar y ffyrdd

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisiau diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru ac, fel yr Awdurdod Cefnffyrdd perthnasol, mae'n gyfrifol am ddiogelwch rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd Cymru. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ddiogelwch ar y ffyrdd eraill. Mae gan sawl corff arall rôl ym maes diogelwch ar y ffyrdd, gan gynnwys Asiant Cefnffyrdd De Cymru; Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru; a'r Heddlu.

Mae Partneriaeth Lleihau Anafiadau Ffyrdd Cymru, GanBwyll, yn gweithio i leihau'r nifer sy'n cael eu hanafu ar y ffyrdd, a hynny drwy ddefnyddio camerâu diogelwch a mesurau gorfodi'n bennaf. Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys 27 o bartneriaid cyfartal, gan gynnwys y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, y pedwar heddlu yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Yn y cyngor y bydd yn ei chynnig i [ddefnyddwyr eraill y ffyrdd](#), ac yn ei [hymgyrchoedd](#), nid yw'r Bartneriaeth yn cyfeirio'n benodol at y rhai sy'n marchogaeth ceffylau ar y ffyrdd.

Mae [Diogelwch Ffyrdd Cymru](#), sef partneriaeth rhwng y 22 awdurdod lleol yng Nghymru; y gwasanaethau brys yng Nghymru; GanBwyll; Llywodraeth Cymru; a RoSPA, yn gweithio i annog partneriaid ac asiantaethau allweddol sy'n gyfrifol am hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru i gydweithredu a rhyngweithio. Ei chenhadaeth yw "Lleihau anafiadau drwy gydweithio". Mae wedi cynhyrchu amrywiaeth o [adnoddau](#) i hybu diogelwch ar y ffyrdd gan gynnwys [poster i hybu diogelwch marchogion ar y ffyrdd](#) (PDF 311KB).

### Camau y mae'r Adran Drafnidiaeth wedi'u cymryd

Mae'r Adran Drafnidiaeth (DfT) yn rhoi cyngor i fodurwyr a marchogion drwy [ei hymgyrch diogelwch ar y ffyrdd, sef PWYLLWCH!](#) Dyma'r cyngor a roddir i fodurwyr:

- Arafwch a byddwch yn barod i stopio os bydd angen
- Cadwch lygad ar farchogion rhag ofn iddynt roi arwydd i chi arafu neu stopio
- Gwyliwch rhag symudiadau sydyn, mae ceffylau'n dychryn yn hawdd ac mae'n anodd rhagweld beth y byddant yn ei wneud
- Peidiwch â chanu'ch corn na refio'ch injan
- Ewch heibio'n araf gan adael digon o le i'r ceffyl. Peidiwch â chyflymu'n sydyn ar ôl mynd heibio.
- Ar gylchfannau, rhaid i farchogion gadw i'r chwith ar y gylchfan nes byddant yn cyrraedd eu ffordd ymadael a, bryd hynny, byddant yn rhoi arwydd eu bod am droi i'r chwith. Fel arfer, dim ond wrth gyrraedd ffordd ymadael nad ydynt am ei defnyddio y byddant yn rhoi arwydd eu bod yn mynd i'r dde.

### Rheolau'r Ffordd Fawr

Mae Rheolau'r Ffordd Fawr yn cynnwys [rheolau ar gyfer defnyddwyr ffyrdd y mae angen iddynt gymryd mwy o ofal nag arfer](#), fel marchogion. Mae'r Cod yn pwysleisio mai'r "defnyddwyr ffyrdd

mwyaf agored i niwed yw cerddwyr, beicwyr, beicwyr modur a marchogion" (Rheol 204). Mae Rheol 215 yn ymwneud â marchogion a cherbydau a gaiff eu tynnu gan geffylau:

Byddwch yn arbennig o ofalus i farchogion ceffylau a cherbydau a gaiff eu tynnu gan geffylau wrth fynd heibio iddynt. **Ewch heibio'n araf gan adael digon o le.** Mae marchogion yn aml yn blant, felly cymerwch fwy o ofal nag arfer a chofiwch y bydd dau farchog yn teithio wrth ochr ei gilydd weithio wrth i farchog profiadol hebrwng ceffyl neu farchog ifanc neu ddibrofiad. Cadwch lygad ar y marchogion rhag ofn iddynt roi arwydd i chi arafu neu stopio. Cymerwch ofal mawr gan drin pob ceffyl fel perygl posibl; mae'n anodd rhagweld beth y byddant yn ei wneud, er gwaethaf ymdrechion y marchog / gyrrwr

O ran geiriad y Cod, er fydd neb yn cael ei erlyn am beidio â chadw at rheolau hyn, [yn ôl yr Adran Drafnidiaeth](#), mae'n bosibl defnyddio achosion o'r fath mewn unrhyw achos llys i sefydlu cyfrifoldeb.

Llwyddwyd i sicrhau cefnogaeth 111,000 o unigolion ledled y DU i ddeiseb yn galw am gyflwyno cyfraith yn ymwneud â [mynd heibio i geffylau a pharchu arwyddion llaw marchogion](#). Yn dilyn y ddeiseb, cynhaliwyd [trafodaeth yn Nhŷ'r Cyffredin](#) ar 4 Gorffennaf 2017 ar ddiogelu marchogion a cheffylau ar ffyrdd gwledig. Wrth ymateb i'r ddadl, dywedodd Jesse Norman, yr Is-ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth:

the Department [for Transport], through the "THINK! road safety" campaign, worked directly with the British Horse Society to support its own "Dead Slow" campaign, to encourage car drivers to pass horses safely. The Department was able to reinforce the BHS campaign by developing a short film that is being promoted as a public information film on UK TV stations. [...]

The Department has also invested in promoting the film on YouTube and other social media, such as Twitter and Facebook. Leaflets and posters to support the campaign further reminded motorists of the need to be patient when they encounter horses on the road and supplemented the advice already given in The Highway Code.

[...] Road safety officers around the country have also been encouraged to feature the campaign locally. To some extent, therefore, there is already a national campaign, in embryo at least.

Mae'r fideo a gynhyrchwyd ar y cyd rhwng yr Adran Drafnidiaeth a Chymdeithas Ceffylau Prydain yn dangos sut i fynd heibio i geffylau yn ddiogel, ac mae i'w gweld [yma](#).

### **Camau y mae Cymdeithas Ceffylau Prydain a'r AA wedi'u cymryd**

[Cymdeithas Ceffylau Prydain](#) yw'r elusen sy'n gweithio i hybu a hyrwyddo addysg, hyfforddiant a diogelwch y cyhoedd ym mhob dim sy'n ymwneud â cheffylau. Mae'r Gymdeithas yn hyrwyddo diogelwch ceffylau a marchogion drwy gyhoeddiadau fel [Road Sense for Riders](#) (PDF 644Kb) a [Horse Sense for Motorists](#) (PDF 4.14MB), a'i hymgyrch [Dead Slow](#) .

Wrth lansio'i hymgyrch Dead Slow ym 2016, cyhoeddodd Cymdeithas Ceffylau Prydain [ystadegau am ddigwyddiadau'n ymwneud â cheffylau ar y ffyrdd](#). Ar sail y digwyddiadau a gofnodwyd ar ei [gwefan damweiniau ceffylau](#) rhwng Tachwedd 2010 a Mawrth 2016, tynnodd y Gymdeithas sylw at y canlynol:

over 2,000 reports [2,070 incidents reported in five years] of road incidents involving horses have been reported to the charity. Of these, 36 caused rider deaths, and 181 resulted in a horse dying from their injuries or being put to sleep.

75% of accidents happened because the vehicle passed the horse without allowing enough space, while over a quarter of respondents said that they also had to deal with driver road rage during the incident.

O'r 2,070 o ddigwyddiadau a gofnodwyd, digwyddodd 146 yng Nghymru. Mae'r AA hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar [rannu'r ffordd yn ddiogel â cheffylau](#).

## Llywodraeth Cymru

### Fframwaith Diogelwch Ffyrdd ar gyfer Cymru

Mae gwefan Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod yn "gweithio gyda'r heddlu, gwasanaethau tân ac achub, awdurdodau lleol a'r trydydd sector i wella diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru". Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei [Fframwaith Diogelwch Ffyrdd ar gyfer Cymru](#) (PDF 1.13MB) yn 2013. Mae'r Fframwaith yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymdrin â diogelwch ar y ffyrdd tan 2020, gan gynnwys ei thargedau diogelwch ffyrdd a'r camau y mae'n eu cymryd i'w cyrraedd.

Mae Llywodraeth Cymru am gyrraedd y targedau a ganlyn ar gyfer holl ffyrdd Cymru erbyn 2020, o'u cymharu â'r ffigurau cyfartalog rhwng 2004–2008:

gostyngiad o 40 y cant yn y nifer a gaiff eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru;

gostyngiad o 25 y cant yn nifer y beicwyr modur a gaiff eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru;  
a

gostyngiad o 40 y cant yn nifer y bobl ifanc (16–24 oed) a gaiff eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru.

Mae'r Fframwaith yn cynnwys ymrwymiad i gefnogi ymgyrchoedd amrywiol yn ymwneud â gyrru dan ddylanwad alcohol a chyffuriau, gyrru'n ddiotal, defnyddio ffonau symudol a gwisgo gwregysau diogelwch. O ran marchogion, mae'r Fframwaith yn cydnabod bod y rhai sy'n marchogaeth ar y ffyrdd yn agored i niwed ac mae'n cynnwys ymrwymiad i weithio gyda chynrychiolwyr o'r gymuned farchogaeth i ddeall y pryderon yn well ac i hwyluso ymgysylltiad:

71. Mae ceffylau a'u marchogion (yn ogystal â gyrwyr cerbydau ceffylau) yn agored i niwed ar y rhwydwaith ffyrdd. Gall gwrthdrawiad rhwng ceffyl a cherbyd beryglu bywyd y ceffyl, y sawl sy'n ei farchogaeth a'r rhai yn y cerbyd.

72. Mae tystiolaeth i awgrymu y caiff nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd sy'n cynnwys ceffylau eu tanadrodd mewn data anafusion<sup>11</sup>.

73. Mae marchogaeth yn fwy cyffredin (yn enwedig ar y ffyrdd) mewn rhannau penodol o'r wlad. Mae nifer fawr o bobl yn marchogaeth mewn ardaloedd gwledig ac maent yn cyfrannu'n sylweddol at yr economi wledig.

Byddwn yn:

- i. Gweithio gyda chynrychiolwyr o'r gymuned farchogaeth i ddeall eu pryderon o ran diogelwch ar y ffyrdd a hwyluso trefniadau i ymgysylltu â phartneriaid eraill.

Disgwylw'n i bartneriaid wneud y canlynol:

- ii. Ymgysylltu â'r gymuned farchogaeth ac ystyried a ddylid cyflwyno unrhyw ymyriadau diogelwch ar y ffyrdd, mewn ardaloedd lle ceir nifer fawr o farchogion a/neu wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd sy'n cynnwys ceffylau.

Yn ei ymateb i'r ddeiseb hon, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith:

Mae gennym berthynas waith agos â Chymdeithas Ceffylau Prydain. Mae fy swyddogion yn siarad â chynrychiolydd Cymreig y Ceffylau Brydeinig yn rheolaidd ac yn eu cynorthwyo i wneud cysylltiadau ac i ymgysylltu â phartneriaid eraill yng Nghymru.

Rydym yn gwerthfawrogi arbenigedd Cymdeithas Ceffylau Prydain yn y maes hwn. Dyna pam yr ydym yn dewis cefnogi eu hymgyrchoedd yn hytrach na chynnal ein hymgyrchoedd ein hunain.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu datganiad blynyddol am [ddamweiniau ffordd yng Nghymru](#) yn seiliedig ar [ddata'r heddlu am y nifer a gaiff eu hanafu](#) ar ffyrdd Cymru. Mae [datganiad 2016](#) (PDF 2.27MB) yn cynnwys gwybodaeth am ddifrifoldeb yr anafiadau (wedi'u lladd, eu hanafu'n ddifrifol neu fân anafiadau) a gwybodaeth am y rhai a anafwyd (mae marchogion yn cael eu cynnwys yn y categori 'defnyddwyr ffyrdd eraill'). Yn ôl y data sylfaenol ar gyfer [pob categori o ddefnyddiwr a anafwyd ar ffyrdd Cymru](#), o'r 6,853 a anafwyd yn 2016, cafodd 1 marchog fân anafiadau. Yn ôl cofnodion heddluoedd Cymru ar gyfer 2015, cafodd 5 marchog fân anafiadau ac anafwyd dau arall yn ddifrifol.

### **Arian ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd**

Caiff awdurdodau lleol arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer diogelwch ar y ffyrdd ar ffurf [Grant Diogelwch ar y Ffordd](#). Gall awdurdodau lleol wneud cais am arian grant bob blwyddyn i roi prosiectau ar waith i geisio lleihau'r nifer a gaiff eu hanafu ar ffyrdd Cymru. Wrth ddyrannu'r arian, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i "gynlluniau sy'n lleihau nifer y beicwyr modur, y bobl ifanc a'r defnyddwyr ffyrdd eraill sy'n agored i niwed sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol".

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ariannu prosiectau i geisio [gwella diogelwch marchogion ar y ffordd](#) drwy'r Gronfa Datblygu Gwledig.

### **Camau y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u cymryd**

Nid yw'r Gwasanaeth Ymchwil yn ymwybodol o unrhyw drafodaethau blaenorol ar y mater hwn yn y Cynulliad.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall o reidrwydd i adlewyrchu newidiadau dilynol.

**Ken Skates AC/AM**  
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**  
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-774  
Ein cyf/Our ref KS/02919/17

David John Rowlands AC  
Cadeirydd - y Pwyllgor Deisebau.

government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

3 Medi 2017

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 10 Awst ynghylch deiseb P-05-774 Ewch Heibio'n Llydan ac yn Araf Cymru

Rydym o ddifrif ynghylch cadw defnyddwyr ffyrdd sy'n agored i niwed yn ddiogel. Fel y dywedodd y deisebwr, mae Fframwaith Diogelwch ar y Ffyrdd Cymru yn cynnwys cais i weithio gyda chynrychiolwyr y gymuned marchogaeth ceffylau i ddeall eu pryderon ynghylch defnyddio'r ffyrdd a'u hannog i gydweithio â phartneriaid eraill.

Mae gennym berthynas waith agos â Chymdeithas Ceffylau Prydain. Mae fy swyddogion yn siarad â chynrychiolwyr Cymreig Cymdeithas Ceffylau Prydain yn rheolaidd ac yn eu helpu i gysylltu a chydweithio â phartneriaid eraill yng Nghymru.

Rydym yn gwerthfawrogi arbenigedd Cymdeithas Ceffylau Prydain yn y maes hwn. Dyna pam ein bod wedi penderfynu cefnogi'u hymgyrch nhw yn hytrach na chynnal ein hymgyrch ein hunain.

Yn gywir,

**Ken Skates AC/AM**  
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**  
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## **P-05-774 Pass Wide and Slow Wales – Correspondence from the Petitioner to the Chair, 26.09.17**

David John Rowlands AC  
Chair – Petitions committee

Ref: Pass Wide and Slow Wales Petition

26 September 2017

Firstly we would like to thank members of the committee and support team for allowing us the opportunity to hand in the Pass Wide and Slow Wales (PWASW) petition in, in person on September 26<sup>th</sup>, and for allowing us to bring horses up to the Senedd.

We recognise that in the broader context our campaign crosses several Welsh Government policy agendas including: environment, economy and infrastructure, housing, and health. Our key priority is to educate drivers how to pass horses and riders appropriately to ensure everyone's safety. To do this we must also look at some of the wider issues including:

- The lack of off road and accessible riding in parts of Wales
- New build housing estates increasing the volume of traffic on the roads.
- Infrastructure that cannot cope with the increase of traffic, creating bottlenecks, which results in people using the lanes as a short cut.
- Driver's attitudes towards vulnerable road users, not just horses and riders.
- The national speed limit in country lanes and driving accordingly to the road conditions. Often when riders ask drivers to slow down they are met with a myriad of abuse including ' I'm not speeding, the limit is 60mph'.

The equestrian industry also plays an important role in the Welsh economy, along with the health and wellbeing benefits of being active and being outdoors.



It is very encouraging to see that the Welsh Government (WG) has a positive relationship with the British Horse Society (BHS), and is supportive of the work they do.

The BHS has been very supportive of the Pass Wide and Slow Wales campaign. Working in partnership, we have; promoted the petition, coordinated meetings with South Wales Police and attended the Cross Party Group on The Horse at the Assembly.

The “Dead? or Dead Slow?” campaign delivered by the BHS in 2016 was hard hitting and very informative, and they continue to focus on improving safety including educating riders through the Riding and Road Safety course, and encouraging people to share ‘Dead? Or Dead Slow’ video.

But horse riders are facing an increasing number of incidents when riding on the roads. The number of reported incidents is also increasing since the BHS developed the Horse Accidents website.

We are not asking the WG to create a brand new campaign, but we are asking that more support/leadership, is given to enable the Dead? Or Dead Slow campaign to run annually here in Wales. More so, we would like to see it publicised more widely through main stream media channels, posters etc...to maximize its long term impact.

We feel that education is the best approach, and the one that would have the most positive and lasting outcomes. We, the PWASW petitioners would be more than happy to work with WG, the BHS and other key partners to make this happen.

One incident leading to injury or death of a horse, the rider or a driver is one to many. We need to send a strong but positive united message so drivers understand the consequences of their actions.

Yours sincerely

Jocelle Lovell – lead petitioner  
Rachel Francis  
Ulrike Smalley  
Angela Baker

# Eitem 2.4

## P-05-776 Cydnabod tri chan mlwyddiant Williams Pantycelyn

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Aled Gwyn Job, ar ôl casglu 545 o lofnodion ar-lein a 569 ar bapur – cyfanswm o 1,114 lofnodion.

### Geiriad y ddeiseb:

Galwn ar Lywodraeth Cymru i gydnabod a choffáu tri chan mlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn eleni (1717–2017).

Credwn fod Williams Pantycelyn wedi gosod y seiliau ar gyfer y Gymru Fodern trwy ei holl emynau (dros 900), ei weithiau llenyddol amrywiol (90), a'i genhadu diflino dros yr efengyl trwy Gymru ben baladr am 40 mlynedd. Arweiniodd Diwygiadau Methodistaid y 18fed ganrif, y bu Williams yn rhan mor allweddol ohonynt, at sefydlu'r corff cenedlaethol cyntaf yn hanes Cymru ers 400 mlynedd, sef Methodistiaid Calфинаidd Cymru (1811). Roedd hwnnw yn ei dro yn gyfrwng i sbarduno cyfres o ddiwygiadau addysgol, cymdeithasol a gwleidyddol pellach fu'n gwbl ganolog wrth greu'r Gymru Fodern.

Mae Pantycelyn felly yn fwy na dim ond un o ffigurau mawr y traddodiad ffydd yng Nghymru. Mae'n un o ffigurau mawr ein stori genedlaethol fel Cymry.

Mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gydnabod ei gyfraniad anferthol i'n cenedl a galwn ar y Llywodraeth i drefnu dathliad priodol wedi i'r aelodau ddychwelyd i Gaerdydd ym mis Medi.

### Gwybodaeth ychwanegol:

Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi trefnu dathliadau cyffelyb i nodi cyfraniadau dau o Gymry amlwg eraill yn ddiweddar. Y llynedd, dathlwyd cyfraniad y nofelydd plant Roald Dahl, a'r flwyddyn gynt, dathlwyd cyfraniad y bardd Dylan Thomas. Gwariwyd symiau helaeth o arian trethdalwyr Cymru ar y digwyddiadau hyn.

Gyda chynsail fel hon wedi ei gosod ddwywaith yn ddiweddar, credwn y byddai'n anesgusodol i'n llywodraeth genedlaethol wrthod cydnabod cyfraniad Williams Pantycelyn yn yr un modd.

Gyda phob dyledus barch i Dylan Thomas a Roald Dahl, a'u cyfraniadau unigol yn eu meysydd priodol – does dim modd cymharu eu cyfraniadau hwy i fywyd Cymru gyfan gyda chyfraniad y Pêr Ganiedydd, William Williams. Bu ymateb cyhoeddus ffyrnig yn ddiweddar i ffiasgo " Y Cylch Haearn" a'r

syniad hwn o wario £400,000 i ddathlu goresgyniad Cymru gan Edward I gyda darn o gelf yng Nghastell y Fflint. Y gŵyn a gafodd ei mynegi dro ar ôl tro gan aelodau o'r cyhoedd oedd, sut ar wyneb y ddaear gallai Llywodraeth Cymru fod mor anwybodus ac ansensitif am hanes Cymru ei hun?

Byddai dathlu a choffáu bywyd a gwaith Williams Pantycelyn mewn modd priodol yn dangos fod gan Lywodraeth Cymru ymdeimlad tuag at ein hanes cenedlaethol.

Un syniad y carem ichi ei ystyried ydy trosglwyddo'r arian a ddynodwyd ar gyfer y Cylch Haearn a chodi darn o gelf aruchel yn Llanymddyfri i gofio am Y Pêr Ganiedydd.

### **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Arfon
- Gogledd Cymru

## Papur Briffio ar gyfer y Pwyllgor Deisebau

Y Pwyllgor Deisebau | 3 Hydref 2017  
Petitions Committee | 3 October 2017

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil: Cydnabod tri chan mlwyddiant Williams Pantycelyn

Rhif y ddeiseb: P-05-776

Teitl y ddeiseb: Cydnabod tri chan mlwyddiant Williams Pantycelyn

Testun y ddeiseb: Galwn ar Lywodraeth Cymru i gydnabod a choffáu tri chan mlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn eleni (1717–2017). Credwn fod Williams Pantycelyn wedi gosod y seiliau ar gyfer y Gymru Fodern trwy ei holl emynau (dros 900), ei weithiau llenyddol amrywiol (90), a'i genhadu diflino dros yr efengyl trwy Gymru ben baladr am 40 mlynedd. Arweiniodd Diwygiadau Methodistaidd y 18fed ganrif, y bu Williams yn rhan mor allweddol ohonynt, at sefydlu'r corff cenedlaethol cyntaf yn hanes Cymru ers 400 mlynedd, sef Methodistiaid Calфинаidd Cymru (1811). Roedd hwnnw yn ei dro yn gyfrwng i sbarduno cyfres o ddiwygiadau addysgol, cymdeithasol a gwleidyddol pellach fu'n gwbl ganolog wrth greu'r Gymru Fodern. Mae Pantycelyn felly yn fwy na dim ond un o ffigurau mawr y traddodiad ffydd yng Nghymru. Mae'n un o ffigurau mawr ein stori genedlaethol fel Cymry. Mae'n ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gydnabod ei gyfraniad anferthol i'n cenedl a galwn ar y Llywodraeth i drefnu dathliad priodol wedi i'r aelodau ddychwelyd i Gaerdydd ym mis Medi.

#### Gwybodaeth ychwanegol:

Nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi trefnu dathliadau cyffelyb i nodi cyfraniadau dau o Gymry amlwg eraill yn ddiweddar. Y llynedd, dathlwyd cyfraniad y nofelydd plant Roald Dahl, a'r flwyddyn gynt, dathlwyd cyfraniad y bardd Dylan Thomas. Gwariwyd symiau helaeth o arian trethdalwyr Cymru ar y digwyddiadau hyn.

Gyda chynsail fel hon wedi ei gosod ddwywaith yn ddiweddar, credwn y byddai'n anesgusodol i'n llywodraeth genedlaethol wrthod cydnabod cyfraniad Williams Pantycelyn yn yr un modd.

Gyda phob dyledus barch i Dylan Thomas a Roald Dahl, a'u cyfraniadau unigol yn eu meysydd priodol – does dim modd cymharu eu cyfraniadau hwy i fywyd Cymru gyfan gyda

chyfraniad y Pêr Ganiedydd, William Williams.

Bu ymateb cyhoeddus ffyrnig yn ddiweddar i ffiasgo " Y Cylch Haearn" a'r syniad hwn o wario £400,000 i ddathlu goresgyniad Cymru gan Edward I gyda darn o gelf yng Nghastell y Fflint. Y gŵyn a gafodd ei mynegi dro ar ôl tro gan aelodau o'r cyhoedd oedd, sut ar wyneb y ddaear gallai Llywodraeth Cymru fod mor anwybodus ac ansensitif am hanes Cymru ei hun?

Byddai dathlu a choffáu bywyd a gwaith Williams Pantycelyn mewn modd priodol yn dangos fod gan Lywodraeth Cymru ymdeimlad tuag at ein hanes cenedlaethol.

Un syniad y carem ichi ei ystyried ydy trosglwyddo'r arian a ddynodwyd ar gyfer y Cylch Haearn a chodi darn o gelf aruchel yn Llanymddyfri i gofio am Y Pêr Ganiedydd.

## William Williams Pantycelyn

Ganwyd William Williams yng Nghefn-coed ger Pentre-tŷ-gwyn ym mhlwyf Llanfair-ar-y-bryn, Sir Gaerfyrddin yn 1717. Wedi marwolaeth ei dad, symudodd ei fam i'w hen gartref teuluol, fferm gyfagos o'r enw Pantycelyn.

Cafodd William Williams dröedigaeth wrth wrando ar y diwygiwr efengylaidd, Howel Harris, yn pregethu ym mynwent Talgarth yn 1737, cyn cael ei ordeinio'n ddiakon yn 1740, a gweithio fel curad i Theophilus Evans yn Llanwrtyd, Llanfihangel a Llanddewi Abergwesyn tan 1743. Gwrthododd esgob Tyddewi ei urddo'n offeiriad yn 1743, oherwydd ei weithgareddau Methodistaidd, felly penderfynodd fod yn bregethwr teithiol.

Ysgrifennodd William Williams sawl casgliad o emynau, a'i emyn fwyaf poblogaidd yw Arglwydd, Arwain Trwy'r Anialwch, sy'n fwy adnabyddus fel Guide me, O thou great Jehovah, sef cyfieithiad Peter Williams o 1771. Nid emynwr yn unig oedd William Williams, ysgrifennodd farddoniaeth a rhyddiaith hefyd.

Bu farw William Williams yn 1791, a chafodd ei gladdu yn eglwys Llanfair-ar-y-bryn.

## Dathlu Dylan Thomas

Yn 2014 cafodd cyfres o ddigwyddiadau eu trefnu gan Lywodraeth Cymru, Cyngor y Celfyddydau, Cyngor Abertawe a Chyngor Sir Gaerfyrddin, i ddathlu canmlwyddiant geni Dylan Thomas. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys:

- Taith lenyddol ac arddangosfa yn y Llyfrgell Genedlaethol;
- Perfformiad llwyfan o A Child's Christmas in Wales;
- Cynhyrchiad o Under Milk Wood; a
- Phum cyngerdd ym Mhrifysgol Bangor.

Yn ôl [adroddiadau newyddion ym mis Mehefin 2012](#), roedd cyfanswm o £750,000 ar gael gan Lywodraeth Cymru, Cyngor y Celfyddydau, Cyngor Abertawe a Chyngor Sir Gaerfyrddin, i'r rheiny oedd am drefnu digwyddiadau i ddathlu canmlwyddiant geni Dylan Thomas. Roedd £500,00 ar gael ar gyfer trefnu tri neu bedwar o ddigwyddiadau mawr o safon rhyngwladol, £225,000 ar gyfer hyd at 10 o weithgareddau canolig, a £25,000 i'w rannu ymysg digwyddiadau cymunedol bychan.

## Dathlu Roald Dahl

Yn 2016 cafodd cyfres o ddigwyddiadau eu trefnu gan Lywodraeth Cymru, National Theatre Wales, Canolfan Mileniwm Cymru a Llenyddiaeth Cymru, i ddathlu canmlwyddiant geni Roald Dahl. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys:

- City of the Unexpected – cynhyrchiad ar y cyd rhwng National Theatre Wales a Chanolfan Mileniwm Cymru, oedd yn cael ei berfformio ar hyd ac ar led Caerdydd, gan ddathlu bywyd a gwaith Roald Dahl;
- Prosiect Gwlad y Gân; ac
- Arddangosfa o ddarluniau Quentin Blake, fu'n gyfrifol am greu'r darluniau ar gyfer nifer o lyfrau Roald Dahl.

Yn ôl [cais Rhyddid Gwybodaeth o fis Hydref 2016](#), bu i Uned Prif Ddigwyddiadau Llywodraeth Cymru gefnogi dau ddigwyddiad i ddathlu canmlwyddiant Roald Dahl, gyda'r llywodraeth yn darparu £500,000 o grantiau tuag at y prosiectau.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Wrth ymateb i'r ddeiseb, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith, Ken Skates, bod Llywodraeth Cymru yn ariannu'r celfyddydau drwy Gyngor Celfyddydau Cymru, sy'n gweithio o fewn fframwaith strategol wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Uned Prif Ddigwyddiadau wedi ariannu digwyddiadau a gweithgareddau, a drefnwyd gan bartneriaid, fel rhan o ddathliadau canmlwyddiant llenorion o Gymru, gan gynnwys Roald Dahl a Dylan Thomas. Yn ôl llythyr Ysgrifennydd y Cabinet, mae gan y ddau awdur yma broffiliau rhyngwladol ac roedd y rhaglenni cysylltiedig yn bodloni'r [meini prawf](#) sydd wedi eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith yn cloi'r llythyr, drwy ddweud:

*Wrth gwrs, byddai'r Uned Prif Ddigwyddiadau yn ystyried cynigion gan bartneriaid neu grwpiau eraill ar ffyrdd o ddathlu ffigyrau eiconig eraill, megis William Williams, Pantycelyn – yn enwedig yn ystod Blwyddyn Chwedlau 2017. Fodd bynnag, dylid nodi ei bod wedi cymryd sawl blwyddyn i gwblhau'r trefniadau ar gyfer dathliadau canmlwyddiant Roald Dahl a Dylan Thomas.*

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-05-776  
Ein cyf/Our ref KS/02918/17

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

David John Rowlands AC  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

[SeneddDeisebau@cynulliad.cymru](mailto:SeneddDeisebau@cynulliad.cymru)

3 Medi 2017

Annwyl

Diolch am eich gohebiaeth ddyddiedig 10 Awst ynghylch y ddeiseb sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod a choffáu tri chan mlwyddiant geni William Williams, Pantycelyn eleni.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r celfyddydau drwy Gyngor Celfyddydau Cymru sy'n gweithio o fewn i fframwaith strategol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Uned Prif Ddigwyddiadau wedi ariannu digwyddiadau a gweithgareddau, a drefnwyd gan bartneriaid, fel rhan o ddathliadau canmlwyddiant llenorion nodedig o Gymru, fel Roald Dahl a Dylan Thomas. Mae gan y ddau awdur yma broffiliau rhyngwladol ac roedd y rhaglenni cysylltiedig yn bodloni'r meini prawf cyhoedddeg (<http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/major-events/?skip=1&lang=cy>).

Wrth gwrs, byddai'r Uned Prif Ddigwyddiadau yn ystyried cynigion gan bartneriaid neu grwpiau eraill ar ffyrdd o ddathlu ffigurau eiconig eraill, megis William Williams, Pantycelyn – yn enwedig yn ystod *Blwyddyn Chwedlau 2017*. Fodd bynnag, dylid nodi ei bod wedi cymryd sawl blwyddyn i gwblhau'r trefniadau ar gyfer dathliadau canmlwyddiant Roald Dahl a Dylan Thomas.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith  
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## **P-05-776 Cydnabod tri chan mlwyddiant Williams Pantycelyn – Gohebiaeth – gan y deisebydd at y Pwyllgor, 27.09.17**

### **SYLWADAU YCHWANEGOL AR GYFER Y PWYLLGOR DEISEBAU**

HOFFWN gyflwyno'r sylwadau ychwanegol er mwyn iddynt gael eu hystyried gan y Pwyllgor Deisebau sy'n cyfarfod dydd Mawrth nesaf.

Os cofiwch chi, roedd ein deiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i goffau William Williams, Pantycelyn yn ffurfiol i nodi tri chan mlwyddiant ei eni eleni(1717-2017)

Cafodd deiseb Pantycelyn ei chychwyn ar ddechrau mis Awst, ac er mai cyfnod o amser cymharol fyr a neilltuwyd ar gyfer y gwaith o gasglu llofnodion ar y ddeiseb( 6 wythnos i bob pwrpas), cafwyd ymateb arbennig o dda o bob rhan o Gymru, gyda'r cyfanswm terfynol yn cyrraedd 1,111 o enwau.

Yn ystod y cyfnod hwn, dangoswyd cryn ddiddordeb yn y ddeiseb gan y Cyfryngau Cymraeg a Saesneg yng Nghymru ac fe gefais fy nghyfweld ar:

- Taro'r Post, Radio Cymru
- Bwrw Golwg, Radio Cymru
- Pnawn Da, S4C
- Breakfast Show, Radio Wales.

Yn ogystal, cafwyd erthyglau am y ddeiseb yn y papurau canlynol:

- Western Mail
- Daily Post
- Y Goleuad
- Y Tyst

Ar ben hynny, cefais gyfle hefyd i son am y ddeiseb wrth ddegau ar ddegau o unigolion mewn hyd at 12 o eglwysi yn ardal Mon a Gwynedd dros y cyfnod hwn mewn anerchiadau/pregethau yn rhinwedd fy waith fel Gweithiwr Cenhadol gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Dydw i ddim yn un am ganu clodydd fy hun, ond byddai'n amhosib rhestru faint yn union o unigolion sydd wedi mynegi diolch i mi a Tim Hodgins, Port Talbot am fynd ati i gynnal y ddeiseb hon. Dyma rai o'r sylwadau ddaeth i law:

**“ Dwi mor ddiolchgar bod rhywun yn gwneud rhywbeth i gofio am Pantycelyn”.**

“ Mae’n warthus nad yw Llywodraeth Cymru –ein llywodraeth ein hunain– wedi meddwl am ei gydnabod eleni ar adeg tri chan mlwyddiant ei eni”

“ Roedd William Williams yn athrylith. Byddai unrhyw genedl gall yn mynd allan o’i ffordd I ddathlu y math o gyfraniad wnaeth o i fywyd ei wlad.”

“ Byddai’n amhosib dychmygu Cymru heddiw heb gyfraniad Williams Pantycelyn”

“Mae hi mor bwysig bod pobl Cymru, yn Gymry Cymraeg a Chymry Di–Gymraeg yn dod i wybod yn iawn am gyfraniad y cawr hwn”

“Mae’n rhaid inni fel cenedl gofio cymaint o gymwynaswr oedd Pantycelyn i’r iaith Gymraeg. Mi wnaeth o ddatblygu iaith swyddogol a ffurfiol Beibl William Morgan a’i throi hi’n gyfrwng byw, deinamig ac ystywyth ryfeddol yn ei holl waith.”

Mae Tim a finnau’n grediniol ein bod wedi cyniwair ryw ddiddordeb newydd ym Mhantycelyn trwy gyfrwng y ddeiseb hon, a’n gobraith ni ydi y bydd modd cynnal a datblygu’r momentwm hwn ymhellach dros weddill y flwyddyn hon ac ymlaen i’r flwyddyn nesaf hefyd.

Yn amlwg, a ninnau’n weithwyr cenhadol gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru, mae cyfraniad enfawr Williams Pantycelyn i’r traddodiad ffydd yng Nghymru yn greiddiol i’r hyn a’n hysgogodd i gychwyn y ddeiseb.

Er gwaetha’r ffigyrau swyddogol sy’n dangos mai 7% yn unig o boblogaeth Cymru sydd bellach yn mynychu ein heglwysi, credwn er hynny fod Cymru’n wlad ysbrydol iawn o hyd. Yn wir, sut allai hi beidio â bod yn wlad ysbrydol o gofio am ddylanwad Cristnogaeth yma ar dirlun a phobl Cymru am 1,500 o flynyddoedd? Mae ysbrydolrwydd Cymru yn parhau’n elfen gref iawn yn ein seic genedlaethol.

Mae cyfraniad Williams Pantycelyn tuag at yr ysbrydolrwydd hynod wydn a chreiddiol hwn yn ein hanes genedlaethol felly yn haeddu cael ei gydnabod yn llawn ac mewn modd hollol deilwng gan ein Llywodraeth ein hunain.

Ond peidiwn ag anghofio chwaith am y modd y bu i Bantycelyn ymestyn terfynau’r iaith Gymraeg ei hun, a’i thywys i gyfeiriadau newydd a mentrus trwy gyfrwng ei 90 o weithiau llenyddol gwahanol.

Cyflwynodd fywyd a sioncrwydd newydd i’r iaith Gymraeg a’i rhyddhau rhag hualau’r ffurfioldeb a’r stiffwrwydd a welwyd yn y cyfieithiadau Cymraeg o’r Beibl a’r Testament Newydd gan William Morgan a William Salesbury– er cymaint oedd camp y ddau wron hynny yn eu tro.

Ac wrth helpu sefydlu'r Seiadau ar draws Cymru o 1750 ymlaen- y grwpiau bach o gredinwyr newydd oedd wedi dod i ffydd yn dilyn diwygiadau'r 18ed ganrif- roedd Pantycelyn hefyd yn gyfrifol am osod y seiliau ar gyfer datblygiad y Gymru Anghydfurfiol yn y 19ganrif, gan mai o'r seiadau hyn y blagurodd yr holl eglwysi a godwyd yng Nghymru yn ystod y ganrif honno ac ymlaen.

A rhaid hefyd cofio am ei ddawn anghymarol fel Cwnselydd i filoedd o ddynion a merched Cymru yn y Seiadau hyn ar draws y wlad am nifer fawr o flynyddoedd. Roedd un o'i weithiau olaf "Drws y Society Profiad" yn dangos sut oedd y seiadau hyn yn gweithredu fel "clinig yr enaid" i'r mynychwyr: wrth i Williams eu hannog, eu calonogi a'u hysbrydoli yn eu bywyd Cristnogol.

Ac a wnes i son am yr 80,000 o filltiroedd a deithiodd o rownd Cymru dros 40 mlynedd di-dor?!!

I derfynu, hoffem erfyn arnoch chi fel Pwyllgor Deisebau i wneud eich gorau glas i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru i fynd ati i gydnabod William Williams, Pantycelyn a'i gyfraniad aruthrol I fywyd Cymru.

Rydym wedi cael ar ddeall fod Ken Skates, y Gweinidog Diwylliant eisoes fel pe bai'n cyflwyno esgusodion ar ran Llywodraeth Cymru trwy ddweud fod dathliadau Dylan Thomas a Roald Dahl( a gostiodd £2 filiwn i drethdalwyr Cymru!!) wedi cymryd tair mlynedd i'w paratoi.

Mawr obeithiwn y byddwch yn herio'r ffasiwn esgusodion tila gan Weinidog Diwylliant sy'n amlwg yn gwbl anwybodus a di-ddeall ynghylch diwylliant a hanes Cymru.

Er mwyn symud y drafodaeth yn ei blaen, hoffem gyflwyno'r syniadau hyn i'ch sylw fel Pwyllgor Deisebau:

- Yn ein trafodaethau gyda gwahanol bobl dros yr wythnosau diwethaf- cafwyd consensws y byddai'n briodol iawn comisiynu darn o gelf arloesol a chreadigol yn Llanymddyfri er mwyn coffau Pantycelyn. Gellid seilio'r darn hwn o gelf ar y thema ganlynol: "Grym Geiriau i Symud ac Ysbrydoli Cenedl" gan gyfuno'r syniad o'r Gair( Y Ffydd Gristnogol) a'r holl eiriau gwahanol a sgwennodd Pantycelyn yn ystod ei oes.
- Pam na ellid trosglwyddo cyfran o'r £400,000 oedd wedi ei glustnodi ar gyfer "Y Cylch Haearn" tuag at y gwaith celf hwn? Gan ddefnyddio arian trethdalwyr Cymru ar gyfer rhywbeth sy'n ein dyrchafu fel cenedl-yn hytrach na dewis ymdrybaeddu yn ein darostyngiad cenedlaethol.

- Beth am greu Cystadleuaeth Gymreig– gan wahodd artistiaid o Gymru i gyflwyno eu syniadau ar gyfer y gwaith celf yn Llanymddyfri?
- Beth am drefnu “Taith Pantycelyn”. Comisiynu sgriptwyr ac actor I ail–greu rhai o deithiau Pantycelyn a chyflwyno ei hanes yn uniongyrchol mewn cymunedau ar hyd a lled y wlad. Gellid targedu ysgolion, ond byddai modd hefyd cynnal perfformiadau cymunedol a fyddai’n gallu denu diddordeb cyhoeddus yn ei fywyd a’i waith.

Yn olaf, hoffai Tim a finnau ddiolch o galon i gynrychiolwyr Y Pwyllgor Deisebau am eu croeso, eu cwртеisi a’u gwrandawriad parchus wrth inni gyflwyno’r ddeiseb yn ffurfiol yn y senedd yr wythnos ddiwethaf.

Mewn oes pan fo’r rhan fwyaf o bobl wedi cael llond bol go iawn gyda gwleidyddiaeth a gwleidyddion yn gyffredinol– yn enwedig yn sgil Brexit– roedd hi’n braf iawn gweld bod yna groeso I ddinasyddion Cymru gyflwyno achos i sylw ein gwleidyddion ni yng Nghaerdydd a chael cystal gwrandawriad wrth wneud hynny.

Hyderwn y gallwch ein cynorthwyo i symud yr ymgyrch hon yn ei blaen.

Diolch yn fawr

Yr eiddoch yn gywir

Aled Gwyn Jôb

Caernarfon



### P-05-778 Amddiffyn Cyllyll Môr ar Draeth Llanfairfechan

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Vanessa L Dye, ar ôl casglu 225 o lofnodion ar-lein a 234 ar bapur – cyfanswm o 459 lofnodion.

#### Geiriad y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- comisiynu astudiaeth ymchwil i ganfod cyflwr gwelyau'r cyllyll môr a'u hyfywedd fel adnodd naturiol hirdymor, a rhoi moratoriwm ar waith ar gyfer pysgota cyllyll môr hyd nes y gall yr ymchwil adrodd ar ei ganfyddiadau;
- cadarnhau tymor 'caeëdig' ar gyfer cynaeafu cyllyll môr sy'n cyd-fynd â'r tymor silio h.y. mis Mai i fis Medi;
- llunio rheoliadau yn ogystal â'r maint glanio lleiaf o 10cm i gynnwys cwotâu penodol y mae unigolion yn cael eu casglu; a
- chyflwyno deddfwriaeth a rheoliadau i amddiffyn y cyllyll môr ar draeth Llanfairfechan.

"Mae'r cynaeafu ar raddfa fawr o gyllyll môr ar draeth Llanfairfechan wedi bod yn destun pryder i lawer o drigolion a chadwraethwyr ers nifer o flynyddoedd." (Cyf: llythyr at Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet gan Janet Finch Saunders AC 28 Gorffennaf 2017.)

Ar hyn o bryd yr unig reolaeth reoliadol ar gyllyll môr yw bod yn rhaid iddynt fod â maint glanio lleiaf cyfreithiol o 10cm, ac mae gwiriadau sy'n ymwneud â rheoli'r hyn sy'n dod yn rhan o'r gadwyn fwyd. Mae llawer o drigolion yn pryderu am y diffyg ymddangosiadol o weithdrefnau a/neu reoliadau sy'n llywodraethu'r broses o gasglu cyllyll môr yn enwedig o ran dynodi tymor 'caeëdig' yn ystod silio, y cwotâu a ganiateir, a'r angen am gynnal gwaith ymchwil ar y cyllyll môr i ganfod yr effaith ar yr ecosystem a'r amgylchedd lleol.

Ers 2013 nodwyd gan nifer o ffynonellau fod cyllyll môr yn cael eu cynaeafu mewn niferoedd mawr o draeth Llanfairfechan. Mae tystiolaeth i gefnogi'r honiad hwn wedi cael ei dogfennu ar sawl achlysur yn y cyfryngau cymdeithasol. Mae cais diweddar ar Hysbysfwrdd Llanfairfechan ar gyfer unrhyw luniau neu fideos o'r rheini sy'n casglu cyllyll môr yn dangos yn glir bod nifer fawr o bobl yn ymwneud â'r gweithgarwch hwn. Mae'r broses o gasglu'r cyllyll môr fel arfer yn digwydd ar ôl llanw uchel.

## **Gwybodaeth ychwanegol:**

Dyma rywfaint o gefndir hanesyddol am y mater hwn. Yn 2013 amlygwyd y cynaeafu gan bapur newydd Weekly News gan Tom Davidson pan nodwyd fod 'criw o dros 100 o bobl yn cynaeafu llawer iawn o gyllyll môr...' Roedd pryderon hefyd fod gweithwyr anghyfreithlon yn cael eu hecsbloetio a bod y cyllyll môr yn cael eu pysgota at ddibenion masnachol. Ar y pryd, dywedodd un o'r trigolion ei fod 'wedi gweld golygfeydd tebyg yn ymwneud â nifer cynyddol o gasglwyr yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf. Mae'r trigolion yn flin oherwydd y nifer fawr o gynaeafwyr gydag ofnau y gallai'r cynefin lleol gael ei ddifrodi yn anadferadwy, gyda channoedd o gyllyll môr yn cael eu casglu oddi ar y traeth yn rheolaidd.'

Er bod yr ofnau o ran bod y casglwyr yn cael eu defnyddio fel rhan o gaethwasiaeth fodern a'r pysgod cregyn yn dod yn rhan o'r gadwyn fwyd wedi cael eu tawelu gan ymdrechion parhaus yr heddlu a'r Asiantaeth Safonau Bwyd, mae canlyniadau amgylcheddol y broses gyson a systematig o gasglu cyllyll môr yn parhau i fod yn broblem fawr, a all effeithio ar fywyd adar môr ac eraill yn yr ardal, ynghyd ag achosi newidiadau posibl yn y dwysedd o dywod ar y traeth. Mae rhai pryderon ynglŷn â'r tywod yn ansefydlog mewn mannau a gallai pobl sy'n anghyfarwydd â'r traeth yn hawdd fynd i drafferthion e.e. mae rhai o'r casglwyr yn cynaeafu'r cyllyll môr gryn bellter i ffwrdd oddi wrth ddiogelwch y tir.

Mae wedi bod yn eithaf diraddiol a rhwystredig i ddinasyddion cyffredin wylio'r ysbeilio o adnodd amgylcheddol ac yn cwestiynu pam mae sefydliadau sydd â chylch gwaith i warchod yr amgylchedd yn ymddangos i gael eu llyffetheirio oherwydd y diffyg gweithdrefnau/deddfau priodol. Mae hyn yn syndod o gofio bod traeth Llanfairfechan wedi'i dynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig ac Ardal Cadwraeth Arbennig. 2013. Mae'n rhaid bod rheoliadau o fewn y cyrff hyn o wybodaeth i fanteisio arnynt fel ffynhonnell i ddiogelu'r anghydbwysedd hwn mewn ecosystem o'r fath?

## **Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Not provided



## Deiseb: Amddiffyn y Cyllyll Môr ar Draeth

### I Llanfairfechan

Y Pwyllgor Deisebau | 3 Hydref 2017

Petitions Committee | 3 October 2017

### Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Rhif y ddeiseb: [P-05-0778](#)

Teitl y ddeiseb: Amddiffyn y Cyllyll Môr ar Draeth Llanfairfechan

Testun y ddeiseb:

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i:

- gomisiynu astudiaeth ymchwil i ganfod cyflwr iechyd y gwelyau cyllyll môr a'u hyfywedd fel adnodd naturiol hirdymor, a rhoi moratoriwm ar waith ar gyfer pysgota cyllyll môr hyd nes y gall yr ymchwil adrodd ar ei ganfyddiadau;
- cadarnhau tymor 'caeedig' ar gyfer cynaeafu cyllyll môr sy'n cyd-fynd â'r tymor silio hy Mai i Fedi;
- llunio rheoliadau yn ychwanegol at y lleiafswm maint glanio o 10cm i gynnwys cwotâu penodol y mae unigolion yn cael eu casglu; a
- dwyn ymlaen deddfwriaeth a rheoliadau i ddiogelu'r cyllyll môr ar draeth Llanfairfechan.

"The mass harvesting of razor clams on Llanfairfechan beach has been a matter of concern for many residents and conservationists for a number of years." (Cyf: llythyr at Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet gan Janet Finch Saunders AC 28 Gorffennaf 2017.)

Ar hyn o bryd yr unig reolaeth reoliadol ar gyllyll môr yw bod yn rhaid iddynt fod â maint glanio lleiaf cyfreithiol o 10cm, ac mae gwiriadau sy'n ymwneud â rheoli'r hyn sy'n dod yn rhan o'r gadwyn fwyd. Mae llawer o drigolion yn pryderu am y diffyg ymddangosiadol o weithdrefnau a/neu reoliadau sy'n llywodraethu'r broses o gasglu cyllyll môr yn enwedig o ran dynodi tymor 'caeedig' yn ystod silio, y cwotâu a ganiateir, a'r angen am gynnal gwaith ymchwil ar y cyllyll môr i ganfod yr effaith ar yr ecosystem a'r amgylchedd lleol.

Ers 2013 nodwyd gan nifer o ffynonellau fod cyllyll môr yn cael eu cynaeafu mewn niferoedd mawr o draeth Llanfairfechan. Mae tystiolaeth i gefnogi'r honiad hwn wedi cael ei dogfennu ar sawl achlysur yn y cyfryngau cymdeithasol. Mae cais diweddar ar Hysbysfwrdd Llanfairfechan ar gyfer unrhyw luniau neu fideos o'r rheini sy'n casglu cyllyll môr yn dangos

yn glir bod nifer fawr o bobl yn ymwneud â'r gweithgarwch hwn. Mae'r broses o gasglu'r cyllyll môr fel arfer yn digwydd ar ôl llanw uchel.

Dyma rywfaint o gefndir hanesyddol am y mater hwn. Yn 2013 amlygwyd y cynaeafu gan bapur newydd Weekly News gan Tom Davidson pan nodwyd fod 'criw o dros 100 o bobl yn cynaeafu llawer iawn o gyllyll môr...' Roedd pryderon hefyd fod gweithwyr anghyfreithlon yn cael eu hecsbloetio a bod y cyllyll môr yn cael eu pysgota at ddibenion masnachol. Ar y pryd, dywedodd un o'r trigolion ei fod 'wedi gweld golygfeydd tebyg yn ymwneud â nifer cynyddol o gasglwyr yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf. Mae trigolion yn ddig oherwydd y nifer helaeth o gynaeafwyr gan ofni y gellid niweidio'r cynefin lleol am byth, gyda channoedd o gyllyll môr yn cael eu cymryd o'r traeth yn rheolaidd." Mae ofnau am y casglwyr yn cael eu defnyddio fel rhan o gaethwasiaeth fodern a'r pysgod cregyn yn cyrraedd y gadwyn fwyd wedi cael eu hatal gan ymdrechion parhaus yr heddlu a'r Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae canlyniadau amgylcheddol y broses gyson a systematig o gasglu cyllyll môr yn parhau i fod yn broblem fawr, a all effeithio ar fywyd y môr ac adar eraill yn yr ardal, ynghyd ag achosi newidiadau posibl yn y dwysedd o dywod ar y traeth. Mae rhai pryderon yn glŷn â'r tywod yn ansefydlog mewn mannau a gallai pobl sy'n anghyfarwydd â'r traeth yn hawdd fynd i drafferthion e.e. mae rhai o'r casglwyr yn cynaeafu'r cyllyll môr gryn bellter i ffwrdd oddi wrth ddiogelwch y tir. Mae wedi bod yn eithaf diraddiol a rhwystredig i ddinasyddion cyffredin wyllo'r ysbeilio o adnodd amgylcheddol ac yn cwestiynu pam mae sefydliadau sydd â chylch gwaith i warchod yr amgylchedd yn ymddangos i gael eu llyffetheirio oherwydd y diffyg gweithdrefnau/deddfau priodol. Mae hyn yn syndod o gofio bod traeth Llanfairfechan wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig ac Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae'n rhaid bod rheoliadau o fewn y cyrff hyn o wybodaeth i fanteisio arnynt fel ffynhonnell i ddiogelu'r anghydbwysedd hwn mewn ecosystem o'r fath?


## Cefndir

### Cynaeafu cyllyll môr

Mae'r gyllell fôr (*Ensis spp.*) yn folwsg dwygragennog sy'n tyfu'n araf ac yn byw'n hir, gyda dwy gragen hirsgwar dal sy'n gallu cyrraedd hyd at 20cm o hyd (Ffigur 1). Fe'u canfyddir yn aml mewn ardaloedd rhynglanwol ac islanwol mwdlyd neu dywodlyd o amgylch arfordir Prydain. Mae cyllyll môr yn fwydwyr hidlo ac fel arfer maent yn byw yn fertigol mewn tyllau o fewn y gwaddod gyda dwy sifon bach (strwythurau tebyg i diwb) ar gyfer bwydo, y gellir eu gweld ar yr wyneb. Mae'r tymor silio'n digwydd yn yr haf.



*Ensis siliqua*  
(up to 20 cm long)



*Ensis arcuatus*  
(up to 15 cm long)



*Ensis ensis*  
(up to 12.5 cm long)

Ffigur 1: Rhywogaethau masnachol o gyllyll môr yn y DU

[Ffynhonnell: Pyke, M. 2012. Evaluation of Good Handling Practice for Razor Clams. [Seafish report CR184 \(PDF 1.62MB\)](#)]

Gellir cynaeafu cylllyll môr mewn nifer o wahanol ffyrdd, er enghraifft, trwy eu casglu â llaw ar y blaendraeth gan ddefnyddio rhacanau a bwcedi fel arfer pan mae'r llanw'n isel, eu casglu trwy dreillio a'u casglu gan blymwyr. Yn ôl sgôr cynaliadwyedd Ensis spp Canllaw Pysgod Da y [Gymdeithas Cadwraeth Forol](#):

Avoid eating clams harvested using illegal methods such as electrical fishing. Choose clams harvested in the wild by sustainable methods such as hand-gathering only. Avoid eating undersized animals (less than 10cm) and wild clams harvested during the spawning season (May – September).

Since the expansion of the fishery there have been no stock assessments and improved information on the state of the stocks is required.

Mae'r farchnad gynyddol ar gyfer cylllyll môr yn bennaf ar gyfer allforion gwerth uchel gaiff eu cludo trwy'r awyr i'r Dwyrain Pell ac Ewrop.

### **Rheoli pysgodfeydd arfordir Cymru a deddfwriaeth pysgodfeydd y glannau**

Datganolwyd rheolaeth dros bysgodfeydd i Gymru drwy *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoli a rheoleiddio pysgodfeydd dyframaethu, rhynglanwol, masnachol a hamdden yng Nghymru, gan gynnwys ei moroedd tiriogaethol a

(0–12nm) a Pharth Cymru (fel y nodwyd yng [Ngorchymyn Parth Cymru \(Ffiniau a Throsglwyddo Swyddogaethau\) 2010](#)).

Y [maint cyfeirio cadwraeth lleiaf](#) yn nyfroedd y DU ar gyfer *Ensis spp.* yw 10cm. Nid oes unrhyw reoli cwota ar waith ar gyfer pysgota cyllyll môr yng Nghymru. [Mae Is-ddeddf 12 – Cyfyngiadau ar Bysgota am Bysgod Cregyn Molysgaidd Dwygragennog – yn berthnasol i Ogledd Cymru yn yr ardal 0–6 morfilltir \(PDF 250KB\)](#). Mae'n nodi:

1. No person shall fish for bivalve molluscan shellfish, except
  - a) by hand; or
  - b) in the case of cockles with a craam, rake, spade or jumbo; or
  - c) in the case of mussels with a rake or in that part of the District which is inshore of a line drawn North true from Penmaen–Bach Point (Latitude 53° 17.3' North, Longitude 03° 52.8' West) to the high water mark at Gt. Ormes Head with a rake, provided that the rake is no more than 1 metre in width and that it is only used from a boat when the mussel bed has at least 1 metre of water over it; or
  - d) when using a dredge or other appliance where:
    - (i) such dredge or appliance is of a pattern approved in writing by the Committee, the Committee having been advised by scientists who in the opinion of the Committee appear to be suitably qualified to comment on the conservation and environmental implications;
    - (ii) such use is in accordance with a written authorisation issued by the Committee and with any conditions subject to which that authorisation was issued, including prohibitions on use at particular times, or in particular areas and definitions of the fishing instrument. Efallai y bydd y Pwyllgor hefyd yn ei gwneud yn ofynnol fel amod y bydd adroddiadau'n cael eu cyflwyno ar y rhywogaethau a'r symiau o bysgod cregyn molysgaidd dwygragennog a gesglir.
2. no person shall take or use on any mussel bed, any sledge or other contrivance which in the opinion of the Committee is likely to crush or loosen the mussels or loosen the foundations of the bed, without a written authorisation issued by the Committee.
3. no person shall dig in any mussel bed for any purpose without a written authorisation issued by the Committee.

Bu nifer o [adroddiadau yn y cyfryngau](#) am gasglu cyllyll môr masnachol ar y blaendraeth yn Llanfairfechan. Cyn 19 Awst 2017 (gweler yr adran ddilynol ar Gamau Gweithredu Llywodraeth Cymru) gellid casglu cyllyll môr i'w bwyta'n bersonol o'r ardal. Fodd bynnag, nid yw'r ardal [wedi'i dosbarthu fel ardal cynaeafu pysgod cregyn](#) (gofyniad o dan Reoliad Ewropeaidd 854/2004). O'r herwydd ni ellir eu gwerthu i'r gadwyn gyflenwi, gan fod yn rhaid i bysgod cregyn gydymffurfio â rheolau diogelwch bwyd llym (safonau iechyd a hylendid).

## Asesu effeithiau gweithgareddau pysgota ar Ardaloedd Gwarchodedig Morol

Mae Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru <sup>1</sup>(NRW) yn cydweithio i [asesu effeithiau gweithgareddau pysgota ar Ardaloedd Gwarchodedig Morol Cymru](#) <sup>2</sup>. Mae Cam 1 y prosiect wedi'i gwblhau ac arweiniodd hyn at nifer o allbynnau gan gynnwys matrices risg o offer pysgota a modd o ryngweithio o ran nodweddion cynefin ac adroddiad cysylltiedig. Aseswyd gradd risg a chategori blaenoriaeth terfynol y matrices ar gyfer 'treilliau wedi'u tynnu ar gyfer cregyn gleision, cregyn cylchog a wystrys' yn erbyn pob cynefin yng Nghymru fel categori llwyd. Nodir yn yr adroddiad:

**Grey** – interaction cannot feasibly or legally occur in Welsh waters or the activity is assessed in a Habitat Regulation Assessment under Article 6(3) of the Habitats Directive, it is therefore not considered further in the current round of assessments...

Ar gyfer rhywogaethau symudol, megis adar aber, morfilod a morloi, mae 'treilliau wedi'u tynnu ar gyfer cregyn gleision, cregyn cylchog a wystrys' wedi cael eu nodi fel rhyngweithio risg isel. Mae Cam 2 y prosiect yn mynd rhagddo gan [CCC, a bydd yn asesu gweithgareddau risg uchel](#) megis gêr symudol ar gynefinoedd creigres sensitif. Bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn trafod yr asesiad ac yn penderfynu a oes angen mabwysiadu a chyflwyno datrysiadau rheoli priodol.

## Rheoli Pysgodfa Cylyll Môr yng ngogledd môr Iwerddon

Oherwydd pryderon ynghylch diffyg cwota a hyfywedd y bysgodfa yng ngogledd môr Iwerddon yn y dyfodol (i'r gogledd o Fae Dulyn), a'r effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 cyfagos, ymgwymerodd Adran Amaethyddiaeth, Bwyd a Môr Llywodraeth Iwerddon ag [ymgyngoriad](#) yn 2014. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion rheoli ar gyfer y bysgodfa, a baratowyd gan Sefydliad Pysgotwyr Môr Gogledd Môr Iwerddon. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cyfanswm Wythnosol Terfynau'r Daliadau a Ganiateir;
- Tymor caeedig yn ystod y tymor silio (4 wythnos);
- Ardaloedd caeëdig (i ganiatáu i welyau cregyn adfer, os yw cyfraddau dal yn dirywio islaw trothwy penodol);
- Gwybodaeth a monitro (er enghraifft, casglwyr i gyflwyno data glanio o fewn 48 awr, llyfrau log llongau a dyfeisiau olrhain GPS ar longau); ac
- Adolygiad o reolaeth (6 mis ar ôl eu cyflwyno ac yn flynyddol ar ôl hynny).

<sup>1</sup> Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r ymgynghorydd cadwraeth natur statudol i Lywodraeth Cymru, gan gynghori ar gynaliadwyedd amgylcheddol mesurau rheoli ar nodweddion Ardaloedd Gwarchodedig Morol.

<sup>2</sup> Mae Ardaloedd Gwarchodedig Morol yn cynnwys safleoedd Natura 2000 (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig).

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn cyflwynwyd nifer o reoliadau. Gweithredodd [Rheoliadau Cyllyll Môr \(Cadw Stociau\) \(gogledd môr Iwerddon\) 2015](#) derfyn dal wythnosol ar gyfer llongau a chyfyngu ar bysgota i rai dyddiau o'r wythnos (dydd Llun i ddydd Sadwrn yn unig). Cafodd y rheoliadau hyn eu diwygio wedyn i leihau'r terfyn wythnosol o 700kg y cwch yr wythnos, i 600kg y cwch yr wythnos. Cyflwynwyd tymor caeedig ar gyfer 2015 ar gyfer y tymor silio (12 Mehefin – 5 Gorffennaf) gan y [Rheoliadau Cyllyll Môr \(Cadw Stociau\) \(gogledd môr Iwerddon\) \(Tymor Silio\) 2015](#). Ar ben hynny, ar 2 Mai 2015, cyflwynwyd y mesurau canlynol i Iwerddon gyfan ar gyfer cyllyll môr:

- Rhwymedigaethau i bwysu a rhoi gwybod am yr holl achosion o lanio cyllyll môr;
- Gofyniad i sicrhau bod pysgota'n digwydd dim ond mewn ardaloedd cynhyrchu pysgod cregyn sydd wedi eu dosbarthu ar gyfer cyllyll môr;
- Gofyniad i bysgota mewn dim ond un dosbarth o ardal cynhyrchu pysgod cregyn, o safbwynt diogelwch bwyd môr, bob dydd; a
- Rhwymedigaeth i longau yn nyfroedd Iwerddon i gario offer olrhain GPS.

O ran diogelusafleoedd Natura 2000, dywedodd y Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Bwyd a Môr y byddai cynlluniau lliniaru yn cael eu datblygu ar gyfer safleoedd â nodweddion mewn perygl o rai gweithgareddau pysgota. Mae datgomisiynu llongau i leihau nifer y llongau sy'n targedu cyllyll môr hefyd yn cael ei ystyried.

## Electrobysgota am gyllyll môr yn yr Alban

Ar hyn o bryd gwaherddir pysgota yn defnyddio trydan o dan [Reoliad yr UE 850/98](#) (Erthygl 31). Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2016, cafodd cynllun arbrofol electrobysgota cyfyngedig ei ganiatau am gyllyll môr [gan Marine Scotland](#) ym mis Ebrill 2017 mewn nifer o leoliadau cyfyngedig o gwmpas arfordir yr Alban. Mae'r dechneg hon yn cynnwys allyrru cerrynt trydan isel o stilwyr sy'n cael eu tynnu'n araf dros wely'r môr o long. Mae'r trydan yn tawelu'r cyllyll môr (ac anifeiliaid eraill ar wely'r môr) gan achosi iddynt ddod allan o'u tyllau, ac yna cânt eu dal gan blymwr. Defnyddir yr arbrawf i gasglu gwybodaeth am stociau a strwythur poblogaethau. Yn ogystal, mae arolygon asesu stoc yn cael eu cynllunio.

## Camau Gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ni ystyriwyd y mater hwn gan y Cyfarfod Llawn nac unrhyw Bwyllgor y Cynulliad.

## Camau Gweithredu Llywodraeth Cymru

Ar 19 Awst 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [hysbysiad cyhoeddus](#) dan Is-ddeddf 16 (Pysgodfa Pysgod cregyn – Cau Dros Dro) y Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Orllewin

Lloegr a Gogledd Cymru blaenorol. Daeth i rym am 00:01 ar 19 Awst 2017 ac mae'n gymwys tan 23:59 ar 31 Rhagfyr 2017. Mae'n nodi:

Ni chaiff neb dynnu, cymryd neu aflonyddu unrhyw gyllyll môr o wely neu ran o wely o gyllyll môr sydd wedi'i gau gan yr Hysbysiad hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn gymwys o ran gofod i:

Yr ardaloedd a gaewyd gan yr hysbysiaid hyn yw'r ardaloedd a elwir yn draethau Llanfairfechan a Phenmaenmawr sy'n gorwedd islaw llinell y Llanwau Serenyddol Uchaf sydd wedi'u ffinio yn y gorllewin gan Afon Llanfairfechan yn Llanfairfechan ac wedi'u ffinio yn y dwyrain gan ben dwyreiniol y Promenâd ym Mhenmaenmawr.

Mae [gwefan](#) Llywodraeth Cymru yn nodi fel a ganlyn:

Yn sgîl pryderon ynglŷn â chyflwr y gwelyau cyllyll môr ar draethau Llanfairfechan a Phenmaenmawr, rydym wedi cau'r pysgodfeydd cyllyll môr hyd 1af Ionawr 2018. Caniateir hyn i ni gynnal arolwg o'r gwelyau cyllyll môr a sicrhau nad oes gorbysgota.

Mae llythyr Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar 29 Awst 2017 at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau yn dweud:

Ar hyn o bryd, mae'r gwely cyllyll môr yn Llanfairfechan ar gau o ran casglu tan 1 Ionawr 2018.

Nawr bod y bysgodfa yn Llanfairfechan ar gau, bydd swyddogion yn comisiynu arolwg i sefydlu statws y stoc cyn i mi ystyried pryd y dylai'r bysgodfa ailagor neu a oes angen unrhyw gyfyngiadau neu newidiadau ychwanegol i'r ddeddfwriaeth gyfredol.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol, fodd bynnag, nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall o reidrwydd i adlewyrchu newidiadau dilynol.

Lesley Griffiths AC/AM  
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-778  
Ein cyf/Our ref LG/01961/17

David John Rowlands AM  
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau.  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Caerdydd  
CF99 1NA

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

Awst 2017

Annwyl David

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Awst ynglŷn â Deiseb P-05-778 Amddiffyn Cyllyll Môr ar Draeth Llanfairfechan.

Mae'r gwely cyllyll môr ar gau hyd 1 Ionawr 2018.

Yn awr mae gwely cyllyll môr Llanfairfechan ar gau, bydd y swyddogion yn comisiynu arolwg er mwyn sicrhau cyflwr y stoc cyn i mi gysidro pryd y dylai'r bysgodfa agor neu a oes angen darparu cyfyngiadau ychwanegol neu newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol.

Xn gywir  
Lesley

**Lesley Griffiths AC/AM**  
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig  
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 98**

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



## P-05-778 Protect the Razor Clams on Llanfairfechan Beach – Correspondence from the Petitioner to the Committee, 26.09.17

### INFORMATION IN SUPPORT OF PETITION 1229

### PROTECT THE RAZOR CLAMS ON LLANFAIRFECHAN BEACH

#### PREFACE

It is important to make clear to the Petition Committee that ideas set out in these supporting notes have been canvassed from as wide and as representative of the local populace, as possible, working within the time limits of preparing the petition.

#### BACKGROUND

##### 1.1 Razor Clams in brief

Razor clams are bivalve molluscs which look like old fashioned razors, (hence the name). Information garnered from different sources; including correspondence from Conwy Council and Janet Finch-Saunders (AM); specifies that razor clams live up to twenty years taking some time to mature. It is believed that the clam bed on Llanfairfechan beach is one of the finest in the country, and it acts as a nursery for up to six different species of clams.

##### 1.2 Current controls, regulations and thoughts about quotas

(a) Current legislation dictates that any razor clams harvested should only be used for personal consumption or as fish bait, and cannot be used in a food business i.e. commercially. (M.Frankcom Public Protection Manager 2016). In addition, they must achieve a landing length of at least 10 cm.

(b) Information gleaned from Head of Regulatory Services CCBC, states that:  
*“Razor clams are (subject to) the requirements of food hygiene regulations including Regulation 853/2004 for LBMs would therefore apply. The primary requirements if they are harvested for commercial purposes are:*

- *The shellfish harvesting area must be classified.....*
- *The classification given to the bed would then determine what could happen to the shellfish once gathered. If the bed was determined to be a category A bed, the shellfish could be consumed immediately; a category b bed would need to go for further treatment...etc. etc.*

***Currently, Llanfairfechan is not a classified for Razor Shells and any gathering for commercial purposes would not be permitted. A section of the beach at Llanfairfechan is***

*classified for Cockles (under Traeth lafan) however; this would not automatically mean it would be classified for razors.*

(c) In respect of collecting cockles the *“fisheries do permit an individual to gather up to 5kg of shell fish per day”*. However, if Llanfairfechan beach was ‘classified’ for razor clams, and given the number of ‘individuals’ involved in removing razor clams, this 5kg benchmark would appear to be too generous. For example, using a hypothetical number of 50 gatherers with each taking 5 kg the amount taken would be nearly half a ton. This is a moot point given that many gatherers visiting Llanfairfechan beach go well beyond a 5 kg quota, with some using large wheelie trollies.

## 2. CONTINUING CONCERNS

Over the last 4 – 5 years it has been noted the numbers of people harvesting razor clams on Llanfairfechan beach has escalated, with, sometimes, up to 100 people involved (Weekly news 26<sup>th</sup> August 2013 – reported by Tom Davidson). Large scale harvesting of the razor clams has continued up to the present time, with gatherers coming at low tides. Video and photographic evidence of the harvesting, along with discussion posts highlighting ongoing concerns, has been shared on social media, most recently: (Facebook – Llanfairfechan Noticeboard group – 27<sup>th</sup> April, 8<sup>th</sup> May, 25<sup>th</sup> June, and 1<sup>st</sup> August 2017).

Here are a few points selected from these on-line posts. *“Lads fishing in the beach are not allowed to take any bass.....until July 1<sup>st</sup>, then only one a day. Yet these people are allowed to take as much as they want with no thought for conservation of the fish stock and food chain”*.

*“Doesn’t anybody have the power to stop them?”*

*“The razor clams will be gone before any petition will do anything.....”*

Each time the gathering takes place there is a corresponding ground swell of debate on social media, along with many residents contacting the various authorities which oversee these activities. The evident lack of regulations leaves residents frustrated and disempowered as they watch the regular, and seemingly, perfectly legal, removal of an important environmental resource.

## 3. AUTHORITIES INVOLVED

Since, 2015 multi-agency operations have been conducted involving the Food Safety & Standards Team of Conwy Council, Harbour Master Conwy Council, Welsh Food Fraud

Co-ordination unit (FSA Wales), North Wales Police, Gang-masters Licensing Authority, Border Agency, North Wales Anti-slavery team and the Welsh Assembly Government Inshore Fisheries Unit and Natural Resources Wales. During this operation, investigations were carried out including identity checks on gatherers and identifying any potential links to food businesses. The operations, so far, have not exposed evidence that would indicate that the clams were being harvested for commercial purposes. These investigations have also allayed concerns that some of gatherers may have been being used as part of modern slavery operation. However, the continuing systematic removal of the clams remains unresolved.

#### **4. ASSEMBLY QUESTION TO THE FIRST MINISTER on 23<sup>rd</sup> May 2016**

Last year Janet Finch-Saunders(AM) raised questions and concerns in the Welsh Assembly about this activity and here is part of the response from Carwyn Jones: *Hand gathering of shellfish (including razor clams), on beaches such as Llanfairfechan, is not restricted as regards the quantities that may be collected. We do not have any evidence that such activity represents a significant threat to the stock of razor clams around the Welsh coast, nor to the ecosystem which they inhabit, nor to other environmental features that we might wish or need to protect. On that basis, we do not currently intend to regulate this activity”.*

#### **5. RAZOR CLAMS – PUBLIC MEETING 24<sup>th</sup> July 2017– Janet Finch-Saunders (AM)**

Many of those attending the meeting expressed strong feelings regarding the sustainability of the razor clam beds and the environmental and economic consequences on this ongoing gathering, such as the possible impact on other marine life, birds, other fishing activities and reputational damage to tourism within Llanfairfechan.

The meeting was informed that razor clams can be taken for personal consumption. Once again the 5kg quota was mentioned, and whilst such a quantity seemed reasonable; on face value; anxieties were voiced about the large numbers of gatherers involved. Along with the fact that some of the gatherers are now using large back packs of salt dispensers in order to obtain the shellfish.

A few concerns were raised regarding problems encountered with littering e.g. empty salt bottles and some incidents of anti-social behaviour exhibited by a few of the gatherers. Further questions were asked as to whether there was any existing research to provide evidence as to the density and types of the razor clams found within the beds, but the panel were unable to comment. It was suggested that research should be initiated in order to establish the facts and check the sustainability of the beds. Some points were mooted about the possibility of having a closed season for the clam beds, in a bid to allow recovery of the beds. A number of people called for

new legislation in order to further protect the razor clams.

## **6. LETTER OUTLINING CONCERNS WAS SENT TO LESLEY GRIFFITHS (AM) Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs after the public meeting**

## **7. TEMPORARY CLOSURE OF RAZOR CLAM BEDS**

### **7.1 Byelaw 16 put in place by the former North Western and North Wales Sea Fisheries Committee**

Since 19<sup>th</sup> August there has been a temporary closure of the razor clam beds.

### **7.2 Continuation of gathering**

Irrespective of the closure of the razor beds discussion on social media, (22<sup>nd</sup> August), indicated that gatherers were still coming to collect razor clams and Fishery officers had to be in attendance a number of times.(See newspaper clip included with these notes).

## **8. PETITION SUGGESTIONS**

We call on the National Assembly for Wales to urge the Welsh Government to:

- commission a research study to ascertain the state of the health of the razor clam beds and their viability as a long term natural resource, and put in place a moratorium for fishing of razor clams until the research can report its findings;
- ratify a 'closed' season for the harvesting of razor clams aligned to the spawning season i.e. May to September;
- draw up regulations in addition to the minimum landing size of 10cm to include set quotas that individuals are allowed to take; and bring forward legislation and regulations to protect the razor clams on Llanfairfechan beach

### **8.1 RESEARCH**

